

Mynediad at Fancio

Hydref 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddESS

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddESS@cynulliad.cymru**
Twitter: **@ SeneddESS**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Mynediad at Fancio

Hydref 2019



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddESS

Cadeirydd y Pwyllgor:



Russell George AC
Ceidwadwyr Cymreig
Sir Drefaldwyn

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Mohammad Asghar AC
Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



Hefin David AC
Llafur Cymru
Caerffili



Vikki Howells AC
Llafur Cymru
Cwm Cynon



Bethan Sayed AC
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



Joyce Watson AC
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



Jack Sargeant AC
Llafur Cymru
Alun a Glannau Dyfrdwy

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	5
Argymhellion.....	7
1. Trosolwg.....	10
Cylch gorchwyl.....	10
Casglu tystiolaeth.....	14
2. Mynediad at arian parod.....	16
3. Mynediad at wasanaethau bancio.....	25
Y Safon Mynediad at Fancio - y broses ar gyfer cau banciau.....	26
Y broses gau.....	27
4. Dewisiadau amgen i wasanaethau cangen.....	30
4. 1. Gwasanaethau digidol a bancio ar-lein.....	30
4. 2. Gwasanaethau bancio canghennau symudol.....	32
4. 3. Rhwydwaith Swyddfa'r Post.....	33
5. Cynhwysiant digidol a chysylltedd.....	41
6. Gallu a chynhwysiant ariannol.....	44
6. 1. Gallu ariannol cenedlaethau'r dyfodol.....	47
7. Yr effaith ar fusnes ac economi Cymru.....	49
8. Yr effaith ar y gymuned.....	53
8. 1. Mynediad at wasanaethau bancio Cymraeg.....	54
9. Bancio cymunedol.....	56
Dichonoldeb.....	61
Dulliau amgen.....	63
Yr effaith ar undebau credyd.....	64
10. Hybiau ariannol a chydweithredu.....	69
Atodiad A: Tystion.....	71

Rhagair y Cadeirydd

Nid yw colli banciau o'n strydoedd mawr yn bryder newydd, ond wrth i fwyfwy gau ar raddfa frawychus mae'n bwysig deall yr effaith yng Nghymru yn llawn. Cadarnhaodd yr 874 o ymatebion i'n harolwg ar-lein fod mynediad at fancio yn fater enfawr i unigolion a busnesau ym mhob rhan o Gymru. Rydym am sicrhau bod digon yn cael ei wneud, a gyda digon o frys, cyn ei bod yn rhy hwyr. Unwaith y bydd seilwaith bancio hanfodol wedi diflannu bydd yn anodd iawn dod ag ef yn ôl. Nid yw'r honiad gan y banciau mawr y gall Swyddfeydd Post lenwi'r bwlch wedi'i phrofi gan y dystiolaeth, ac mae effaith gymdeithasol ac economaidd cau canghennau yn bellgyrhaeddol.

Mae gwaith cynharach y Pwyllgor ar adfywio canol trefi yn amlygu effaith cau canghennau banc ar fywiogrwydd y stryd fawr yn gyffredinol, a sut y mae'n newid. Mae'r rhai sy'n dal i fuddsoddi yn y stryd fawr - megis cymdeithasau adeiladu - yn newid y ffordd y maent yn ymgysylltu â chwsmeriaid a chymunedau i geisio cadw'r stryd fawr yn fyw, ond ni ddylem danamcangyfrif yr heriau.

Ym mis Mehefin eleni, rhybuddiodd Natalie Ceeney, Cadeirydd yr Adolygiad o'r Mynediad Annibynnol at Arian Parod¹ fod yn rhaid inni beidio â newid yn gymdeithas heb arian yn ddifeddwl, oherwydd mae'n amlwg y bydd hyn yn cael yr effaith fwyaf ar y rhai sydd fwyaf agored i niwed a'r rhai mwyaf difreintiedig yn ein plith. Yn sicr nid yw Cymru yn barod i roi'r gorau i ddefnyddio arian.

Er bod llawer o elfennau sy'n berthnasol i'r mater hwn wedi'u cadw i Lywodraeth y DU, mae adnoddau sylweddol ar gael i Lywodraeth Cymru. Roeddem hefyd yn awyddus i archwilio ymrwymiad maniffesto uchelgeisiol y Prif Weinidog i gyflwyno banc cymunedol yng Nghymru erbyn diwedd tymor y Cynulliad hwn. Clywodd y Pwyllgor lawer o bryderon ynghylch ymarferoldeb y cynnig bancio cymunedol gan Banc Cambria a'i effaith bosibl ar undebau credyd, a chyflwynwyd syniadau cydweithredol eraill. Wrth i lawer ohonom newid y ffordd yr ydym yn bancio ac yn rheoli ein harian, a oes ffyrdd eraill gwell o helpu'r rhai sy'n cael eu gadael ar ôl?

Mae hwn yn faes cymhleth a dim ond crafu'r wyneb a wnaeth ein hymchwiliad. Ond mae rôl amlwg i'r llywodraeth a rheoleiddwyr fynd i'r afael â'r problemau a rhaid inni weld mwy o frys. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn cynrychioli lleisiau defnyddwyr Cymru ar lefel y DU. Rydym yn croesawu mentrau fel Grŵp Strategaeth Arian Parod yr Awdurdodau ar y Cyd a sefydlwyd gan Drysorlys EM, a gwaith LINK, Swyddfa'r Post a'r Undebau Credyd i wella mynediad at y

¹ www.accesstocash.org.uk/

gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl. Lle mae'r farchnad yn methu pobl, mae angen arweinyddiaeth gref i ddod o hyd i atebion.

Russell George AC

Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Argymhellion

Argymhelliad 1. Rhaid i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu ei hymgysylltiad â Grŵp Strategaeth Arian Parod yr Awdurdodau ar y Cyd (JACS) a sicrhau bod anghenion penodol Cymru yn cael eu cynrychioli a'u hadlewyrchu yn y camau a gymerir i amddiffyn a gwella mynediad at arian parod..... Tudalen 23

Argymhelliad 2. Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i weithio gyda LINK a'r rheoleiddwyr ar ymdrechion i gryfhau a chefnogi'r rhwydwaith peiriannau ATM rhad ac am ddim presennol, a sicrhau bod peiriannau ar gael yn y lleoliadau lle mae eu hangen fwyaf..... Tudalen 24

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall hybiau rhanbarthol, a chydweithrediad rhwng gwahanol asiantaethau wella'r mynediad at arian parod yng nghymunedau Cymru (gan gydnabod bod trin arian parod yn fusnes drud).
..... Tudalen 24

Argymhelliad 4. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda llywodraeth leol i sicrhau bod cynlluniau datblygu lleol yn mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i gynnal y seilwaith arian parod, er enghraifft drwy gydbwysu mesurau cadwraeth treftadaeth â'r angen i gynnal mynediad at beiriannau ATM mewn ardaloedd gwledig..... Tudalen 24

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i'r Pwyllgor ar sut y bydd ei chynlluniau i ddiwygio'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd Cyfunol a'r hawliau datblygu a ganiateir yn ystyried yr angen i amddiffyn a chynnal seilwaith bancio yng nghymunedau Cymru..... Tudalen 24

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth y DU a'r grŵp JACS adolygu a yw'r Safon Mynediad at Fancio yn ddigon cadarn i fynd i'r afael ag effaith cau banciau ar bobl sy'n agored i niwed, busnesau bach a chanolig a chymunedau lleol, neu a oes angen cymryd camau rheoleiddio neu gamau lliniaru eraill..... Tudalen 29

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei chefnogaeth i Rwydwaith Swyddfa'r Post ac archwilio gyda Llywodraeth y DU a Swyddfa'r Post Cyf sut i gefnogi ymdrechion i ehangu'r gwasanaethau arian mewn ac allan a'r gwasanaethau eraill y gall eu cynnig, ac i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'i gwasanaethau bancio ledled Cymru..... Tudalen 39

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru fapio'r bylchau mewn gwasanaethau bancio yn gyffredinol - mynediad at fanciau, Swyddfeydd Post, peiriannau ATM rhad ac am ddim i'w defnyddio a chysylltedd ar gyfer bancio digidol. Yn seiliedig

ar well dealltwriaeth o'r bylchau, dylai Llywodraeth Cymru ystyried beth arall y gall ei wneud i fynd i'r afael â'r effeithiau lles sy'n gysylltiedig â llai o fynediad mewn cymunedau gwledig, e.e. buddsoddi mewn opsiynau trafndiaeth, dulliau partneriaeth, ymyriadau cynllunio a phrosiectau cysylltedd i wella mynediad yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt fwyaf.....Tudalen 39

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fynd ar drywydd gweithredu mesurau i ddarparu cysylltedd digonol ar gyfer bancio digidol ledled Cymru gyfan gyda Llywodraeth y DU ac Ofcom, a hynny ar frys..... Tudalen 43

Argymhelliad 10. Dylai cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhwysiant digidol flaenoriaethu a) cynnal cefnogaeth ar gyfer hyfforddiant sgiliau digidol sy'n bodoli eisoes, b) ymgynghori â rhanddeiliaid ar sut i fynd i'r afael ymhellach â'r rhwystrau i bobl hŷn a phobl sy'n agored i niwed gael mynediad diogel at fancio ar-lein, ac c) darparu cymorth ychwanegol i athrawon ddarparu addysg ariannol o fewn y cwricwlwm ysgolion.....Tudalen 48

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n fanwl sut y mae'n bwriadu ystyried effaith banciau'n cau a cholli peiriannau ATM rhad ac am ddim i'w defnyddio ar gymunedau, canol trefi a strydoedd mawr yn ei gweithgareddau adfywio ac adeiladu cyfoeth cymunedol.....Tudalen 54

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw gynnig bancio cymunedol yng Nghymru yn ystyried yn llawn yr angen i ddarparu gwasanaethau bancio dwyieithog.....Tudalen 55

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru:

- Roi sicrwydd bod y broses diwydrwydd dyladwy ar gyfer cefnogi banc cymunedol Banc Cambria yn cynnwys asesiad trylwyr o'r effaith y gallai hyn ei chael ar y sector undebau credyd, a nodi sut y bydd yn lliniaru effeithiau a allai fod yn negyddol mewn ymgynghoriad â'r sector hwnnw;
- Darparu manylion am ei strategaeth ar gyfer rheoli'r risgiau parhaus sy'n gysylltiedig â rhoi arian cyhoeddus ym model bancio heb ei brofi y Gymdeithas Banc Cynilion Cymunedol, ac egluro lefel y gefnogaeth y mae'n rhagweld y bydd yn ei chynnig i'r banc cymunedol yn y dyfodol;
- Cadarnhau'r amserlenni ar gyfer darparu banc cymunedol i Gymru; a

- Chadarnhau a yw'n hyderus y bydd cynnig Banc Cambria yn cwrdd â'r awydd amlwg am wasanaethau bancio wyneb yn wyneb ffisegol ar gyfer cwsmeriaid hŷn, anabl a'r rhai sy'n agored i niwed. Tudalen 68

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru fynd ar drywydd syniadau cydweithredol eraill ar gyfer darparu gwasanaethau bancio, gan gynnwys drwy drefniadau partneriaeth, ochr yn ochr â'i chefnogaeth i fodel bancio cymunedol Banc Cambria. Dylai ei meini prawf ar gyfer cefnogi cynigion i wella mynediad at wasanaethau bancio fod â phwyslais cryf ar warantu mwy o gynhwysiant ariannol. Tudalen 70



1. Trosolwg

Casglodd yr ymchwiliad wybodaeth am effaith gymdeithasol ac economaidd cau banciau yng Nghymru o ymgynghoriad, arolygon ac astudiaethau achos. Gwrthododd y banciau “stryd fawr” mwyaf roi tystiolaeth lafar, ond cyfarfu The Co-operative Bank, Cymdeithas Adeiladu Principality, Cymdeithas Adeiladu Nationwide, UK Finance a’r rheoleiddwyr â’r Pwyllgor.

Cylch gorchwyl

1. Archwiliodd yr ymchwiliad effaith cau canghennau banc yng Nghymru ar fusnesau lleol, defnyddwyr ac economi Cymru ac ystyriodd pa gamau y gellid eu cymryd i fynd i’r afael ag unrhyw faterion a nodwyd. Edrychodd y Pwyllgor ar y canlynol:
 - Y sefyllfa bresennol o ran mynediad at wasanaethau bancio yng Nghymru, i gynnwys materion yn ymwneud â chynhwysiant ariannol a chynhwysiant digidol;
 - Yr amrywiaeth o ffyrdd y gall cau canghennau a mynediad at beiriannau ATM am ddim effeithio ar gymunedau lleol (er enghraifft yr effeithiau o safbwynt busnes, twristiaeth, cymdeithasol, demograffig ac adfywio); a
 - Deall y broses, y buddion a’r heriau posibl sy’n gysylltiedig â sefydlu banc cymunedol gyda nifer o ganghennau yng Nghymru.
2. Daeth y Pwyllgor o hyd i dystiolaeth ysgubol o effaith negyddol cau banciau a gostyngiad mewn peiriannau ATM rhad ac am ddim i’w defnyddio yng Nghymru. Amlygodd canlyniadau’r arolwg yr effaith ar unigolion, cymunedau a busnesau: roedd cau banciau wedi effeithio ar 87 y cant o gwsmeriaid bancio personol, a 78 y cant o gwsmeriaid bancio busnes. Roedd mynediad at gyfleusterau tynnu arian o ganlyniad i gau banciau yn bryder i 50 y cant o’r ymatebwyr. Effeithir ar bob rhan o Gymru, ond mae’r broblem yn arbennig o ddifrifol mewn ardaloedd mwy gwledig, ac i bobl hŷn ac anabl. Mae hefyd yn cael effaith sylweddol ar fentrau bach a chanolig (BBaChau). Yn 2018, roedd 94.9 y cant o fentrau yng Nghymru yn

ficro-fusnesau a oedd yn cyflogi llai na 10 o bobl.² Pa bynnag ffordd yr edrychwch arno, mae Cymru dan anfantais ddwbl.



² Bwletin Ystadegol Llywodraeth Cymru - Proffil rhanbarthol marchnad lafur ac economaidd: Gorffennaf 2019

- 3.** Mae bancio yn fater a gedwir yn ôl, ond mae gan Lywodraeth Cymru rai ysgogiadau polisi (er enghraifft mewn polisi cynllunio, addysg ariannol a chefnogaeth ar gyfer dewisiadau amgen i fanciau ar y stryd fawr) ac mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai hefyd flaenoriaethu ymgysylltu â rheoleiddwyr a Llywodraeth y DU i gael dylanwad.
- 4.** Mae cau canghennau yn benderfyniad masnachol ond mae amheuaeth eang ynghylch p'un a yw safonau gwirfoddol yn ddigonol. Er i'r Pwyllgor gymryd tystiolaeth gan UK Finance, sy'n cynrychioli sector bancio'r DU, roedd yr ymgysylltiad cyfyngedig fel arall gan y banciau blaenllaw yn dweud llawer. Roedd UK Finance o'r farn na ddylid gadael unrhyw gwsmer ar ôl drwy ddigideiddio³, ond yn amlwg roedd yn gweld mwy o ddefnydd o dechnoleg fel y sbardun ar gyfer ailfeintio strwythur canghennau banc a seilwaith ATM.⁴ Tynnodd sylw hefyd at y dirywiad yn nifer y cwsmeriaid sy'n defnyddio banciau i gael gafael ar arian parod, a'r ffaith bod gan ganghennau banc sylfaen costau sefydlog uchel iawn.⁵
- 5.** Dywedodd The Co-operative Bank, sef yr unig "fanc stryd fawr" i gytuno i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, ei fod wedi lleihau ei bresenoldeb ar y stryd fawr yng Nghymru o 17 cangen yn 2013 i ddim ond 4 cangen yn 2019, a leolir yn ne-ddwyrain Cymru lle mae ganddo oddeutu 67 y cant o'i sylfaen cwsmeriaid.⁶ Dywedodd Chris Larmer o The Co-operative Bank, er nad yw cau yn benderfyniad a wneir yn ysgafn⁷, a chaiff ei wneud fesul achos, caiff ei yrru gan y gostyngiad sylweddol yn y defnydd o ganghennau oherwydd defnydd cynyddol cwsmeriaid o wasanaethau digidol. O ran y defnydd o ganghennau dywedodd fod rhai ohonynt mor isel â 200 o drafodion yr wythnos.⁸ Pan gafodd ei herio ar ymrwymiad y banc i'w gwsmeriaid, tynnodd sylw at ymgysylltiad cryf y banc â'r gymuned leol a'i bartneriaeth â Cyngor ar Bopeth i gefnogi cwsmeriaid sy'n agored i niwed a hyrwyddo cynhwysiant digidol.
- 6.** Nid yw pob sefydliad ariannol yn gadael y stryd fawr. Heb os, mae newidiadau rheoliadol sy'n gwahanu bancio manwerthu a buddsoddi, a gwasgfa ar faint elw, wedi cael effaith, ond gwnaeth Nationwide, cymdeithas adeiladu sy'n cynnig cyfrif cyfredol, ymrwymiad cyhoeddus ym mis Mawrth 2019 y bydd pob tref neu ddinas sydd â changen ar hyn o bryd yn dal i fod â changen ym mis Mai 2021. Mae wedi ymrwymo i wario £350 miliwn dros bum mlynedd i sicrhau bod ei

³ Paragraff 8, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 19 Mehefin 2019

⁴ Paragraff 8, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 19 Mehefin 2019

⁵ Paragraff 49, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 19 Mehefin 2019

⁶ Paragraff 13, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 19 Mehefin 2019

⁷ Paragraff 26, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 19 Mehefin 2019

⁸ Paragraff 27, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 19 Mehefin 2019

ganghennau'n parhau i fod yn berthnasol i anghenion pobl. Ac er bod bron i hanner holl ganghennau banciau stryd fawr "y pedwar mawr" wedi cau yn ystod y deng mlynedd diwethaf yng Nghymru, yn ystod yr un cyfnod mae Cymdeithas Adeiladu'r Principality wedi agor dwy gangen a 12 asiantaeth, wedi'i hymgorffori mewn cymunedau lleol ac yn dweud ei bod yn parhau i weld cynnydd yn nifer y cwsmeriaid pan fo canghennau banc cyfagos wedi cau.⁹

7. Er na wadodd y sector bancio fod cau banciau'n cael effaith ar gwsmeriaid, ymddengys mai'r neges yw bod hyn yn ganlyniad anochel i ddigideiddio, a bod ei ffocws ar gefnogi'r defnydd cynyddol o wasanaethau digidol gan bob cwsmer. Nid ymddengys bod y dull hwn yn cydnabod realiti nifer fawr o bobl a fydd yn parhau i gael eu gwahardd yn ddigidol, mater a drafodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

8. Mae llawer yn ystyried mynediad at fancio fel gwasanaeth cyhoeddus hanfodol, ac mae safbwyntiau gwahanol hefyd ynghylch p'un a yw cau canghennau banc yn anochel mewn cymdeithas gynyddol ddigidol. Nododd Uno'r Undeb:

"What is different in Wales to the rest of the UK is the commitment of the Welsh Building Societies to maintain, and in some cases increase, their high street presence. Both Principality Building Society and Monmouthshire Building Society have confirmed to Unite that there has been a significant spike in business since the high street banks have withdrawn from some of the smaller towns in Wales, and they have no intention of following the same path of closures. This absolutely flies in the face [of] the Banks rationale for the raft of closures over the last few years."¹⁰

9. Ochr yn ochr â chau canghennau, ystyriodd yr ymchwiliad hefyd effaith dirywiad mynediad at beiriannau ATM rhad ac am ddim i'w defnyddio. Dywed LINK, y sefydliad dielw sy'n rheoli rhwydwaith LINK ATM, er bod y defnydd o arian parod wedi dirywio'n gyflym yn ystod y degawd diwethaf a bod disgwyl i hyn barhau, mae mynediad am ddim at arian parod i ddefnyddwyr yn wasanaeth cenedlaethol hanfodol. Dywedodd LINK fod dros 47 y cant o ddefnyddwyr yn dal i ddibynnu ar arian parod ac i 17 y cant byddai cymdeithas heb arian yn cyflwyno heriau go iawn. Dywedodd y sefydliad defnyddwyr Which? wrth y Pwyllgor ei fod yn pryderu bod y gyfradd y mae mynediad at arian parod yn dirywio yn groes i agweddau a galw defnyddwyr, a'i fod yn cael ei yrru gan ddiwydiant.

⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig

¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig

Rhybuddiodd y gallai cymunedau Cymru golli eu dewis i ddefnyddio arian parod cyn eu bod yn barod ac os bydd arian parod yn diflannu, gall ei ailgyflwyno fod yn gymhleth. Mae Which? yn tynnu sylw at brofiad Sweden, sydd wedi symud tuag at gymdeithas heb arian parod ac wedi colli llawer o'i seilwaith arian parod. Mae banc canolog Sweden bellach yn ymwneud â chynllunio wrth gefn i wella gwytnwch ymosodiad seiber, ac i reoli sefyllfa lle mae taliadau digidol yn cael eu rheoli gan nifer fach o chwaraewyr masnachol.¹¹

10. Mae'n amlwg bod angen arweinyddiaeth mewn rhan o'r economi lle mae'r farchnad wedi methu; ac mae'r mater hwn yn un brys - unwaith y bydd canghennau wedi mynd a seilwaith bancio yn cael ei ddileu bydd yn rhy hwyr. Mae tystiolaeth yn dangos na all dewisiadau amgen cyfredol i ganghennau banc lenwi'r bwlch - mae terfyn i'r gwasanaethau a gynigir gan Swyddfa'r Post ac undebau credyd, a rhwystrau i fancio ar-lein sy'n golygu na all fod yr unig ateb yn yr hirdymor.

11. Edrychodd y Pwyllgor ar p'un ai banc cymunedol newydd i Gymru, ymrwymiad maniffesto gan y Prif Weinidog, yw'r ateb. Er bod y rhesymeg dros fanciau cymunedol yn argyhoeddiadol, a bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r rheidrydd polisi a'r diben cyhoeddus, nid oedd tystiolaeth am ei ymarferoldeb yn bendant: roedd y dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor yn tynnu sylw at broblemau posibl gyda chostau uchel, amserlenni, cyfalafu, materion o ran ymddiriedaeth, fforddiadwyedd ar gyfer cwsmeriaid, a risg buddsoddi. Mae undebau credyd Cymru eisoes yn cynnig gwasanaethau bancio hanfodol i'r rheini a fyddai fel arall yn cael eu gwahardd yn ariannol, ac mae lle i roi mwy o gefnogaeth i'r undebau credyd a rhwydwaith Swyddfa'r Post i ehangu eu cynnig, ac i ystyried ffyrdd cydweithredol o ddiogelu gwasanaethau bancio.

Casglu tystiolaeth

12. Cafodd y Pwyllgor dros 30 o ymatebion i'w alwad am dystiolaeth ysgrifenedig¹². Cynhaliwyd arolwg ar-lein hefyd ym mis Mai, gydag 874 o ymatebion. Yn ogystal â chynnal arolwg, cynhaliodd y tîm Ymgysylltu â Dinasyddion grwpiau ffocws wyneb yn wyneb â grwpiau cymunedol mewn ardaloedd lle mae eu banc olaf wedi cau. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod safbwyntiau'r rhai a allai gael eu gwahardd yn ddigidol rhag cymryd rhan yn yr arolwg hefyd yn cael eu cofnodi. Roedd y grwpiau ffocws dan sylw yn cynnwys 53 o ddinasyddion yn Llanwrtyd, Ceredigion, Llanfyllin ac Ynys Môn. Roedd y cyfranogwyr yn cynnwys pobl hŷn, pobl ag anabledd, gweithwyr cymorth a

¹¹ www.accesstocash.org.uk/media/1087/final-report-final-web.pdf

¹² www.senedd.assembly.wales/mgConsultationDisplay.aspx?id=354

mamau â phlant ifanc. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i glwb cinio Llanfyllin, cynllun Cludiant Cymunedol Llanwrtyd, Fforwm Anabledd Ceredigion a grŵp Mam a'i Phlentyn Ynys Môn am roi o'u hamser i gyfrannu at yr ymchwiliad hwn. Mae canlyniadau llawn yr arolwg a gwaith y grŵp ffocws ar gael ochr yn ochr â darnau eraill o dystiolaeth ysgrifenedig.¹³

13. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ddiolchgar i staff yng nghymdeithasau adeiladu'r Principality a Nationwide yng Nghaerdydd, yr ymwelwyd â hwy ar 5 Mehefin 2019. Roedd yn bwysig ceisio barn sefydliadau ariannol sydd wedi cynnal eu hymrwymiad i gynnig gwasanaethau ar y stryd fawr a buddsoddi mewn cymunedau lleol yng Nghymru. Yna cynhaliwyd sesiynau dystiolaeth lafar yn y Senedd ar 13 Mehefin, 19 Mehefin, 27 Mehefin a 3 Gorffennaf. Mae rhestr lawn o'r tystion ar gael yn Atodiad A.

¹³ www.senedd.assembly.wales/mgConsultationDisplay.aspx?id=354

2. Mynediad at arian parod

14. Er gwaethaf y cynnydd mewn gwasanaethau bancio digidol a gostyngiad yn y defnydd o arian parod, mae Llywodraeth y DU yn cydnabod bod arian parod yn parhau i fod y ffurf ddominyddol o dalu am nwyddau i lawer o bobl ledled y wlad. Mae'n amcangyfrif bod tua 2.2 miliwn o bobl yn y DU yn dal i ddibynnu arno, gyda'r henoed, y rhai sy'n agored i niwed a'r rhai mewn cymunedau gwledig yn debygol o deimlo effaith y dirywiad fwyaf.¹⁴ Dywedodd Chris Hemsley o'r Rheoleiddiwr Systemau Talu, sy'n goruchwyllo'r system ATM yn y DU, er bod y defnydd cyffredinol o arian parod yn lleihau, mae ei waith ymchwil ei hun yn dangos bod tua 80 y cant o bobl yn dal i ddefnyddio arian parod bob wythnos.¹⁵ Dangosodd ymchwil Which? fod 78 y cant o bobl Cymru yn 2018 yn defnyddio arian parod yn aml (o leiaf 1-2 gwaith yr wythnos), a dim ond 2 y cant a ddywedodd mai anaml y maent yn ei ddefnyddio. Yn ystod y tri mis blaenorol, roedd bron i hanner defnyddwyr Cymru (48 y cant) wedi cael amser pan allent ond dalu am rywbeth gydag arian parod.¹⁶

15. Canfu ymchwil ledled y DU gan Which? fod y defnydd o arian parod yn uchel ar draws y grwpiau incwm, gan ddangos nad pobl ar incwm isel yn unig sy'n defnyddio arian parod yn aml. Mae mwy o bobl wedi ymddeol yn defnyddio arian parod yn aml, o leiaf unwaith neu ddwywaith yr wythnos (80 y cant), mae'n 79 y cant ar gyfer y rhai dros 40 oed, ac ar gyfer pobl ifanc 18-39 oed mae'n dal i fod yn 63 y cant. Dywedodd Thomas Docherty, Pennaeth Cenhedloedd a Rhanbarthau Materion Cyhoeddus y sefydliad defnyddwyr, wrth y Pwyllgor:

“...even [UK Finance] project that, towards the end of the next decade, cash will still be the second most frequently used form of payment in the UK by consumers. Therefore, it's absolutely essential that consumers, the customers, are able to access without charge their cash and that those customers who...can't use online or phone banking, have access to a branch network.”¹⁷

16. Dywedodd hanner y rhai a ymatebodd i arolwg y Pwyllgor (50 y cant) fod cau banciau wedi cyfyngu eu mynediad at beiriannau ATM neu unrhyw gyfleusterau tynnu arian am ddim eraill: dywedodd mwy na thraean (36 y cant) fod yn rhaid iddynt deithio hanner awr ychwanegol i gael mynediad at gangen banc, ac i 29 y

¹⁴ www.gov.uk/government/news/cash-here-to-stay-as-government-commits-to-protecting-access

¹⁵ Paragraff 213, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Mehefin 2019

¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig

¹⁷ Paragraff 31, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 13 Mehefin 2019

cant o bobl roedd yn awr ychwanegol o deithio. Ac mae'r dirywiad mewn peiriannau ATM rhad ac am ddim i'w defnyddio wedi cael effaith anghymesur ar y rhai sydd fwyaf agored i niwed yng Nghymru, gan gynnwys y rhai sydd angen symiau arian parod bach rheolaidd ar gyfer cyllidebu. Roedd gwaith ymchwil Which? a gyhoeddwyd ym mis Medi 2019 yn dangos bod ardaloedd difreintiedig yn colli peiriannau ATM rhad ac am ddim i'w defnyddio yn llawer cyflymach nac ardaloedd cefnog ledled y DU, gyda dadansoddiad yn awgrymu bod Canol Caerdydd a Blaenau Gwent ymhlith y rhai sydd wedi'u heffeithio fwyaf gan y newid i beiriannau y mae angen talu i'w defnyddio. Rhwng mis Ionawr 2018 a mis Mai 2019, collodd Cymru 10.7 y cant o'i pheiriannau ATM rhad ac am ddim i'w defnyddio.¹⁸

“Mae'r ddau beiriant arian parod yn ein tref ddi-fanc yn aml yn rhedeg allan o arian parod ar benwythnos.” **Ymatebydd i'r arolwg**

“Mae fy manc agosaf yn daith yn ôl a 'mlaen o 20+ milltir, ac mae angen taith yn ôl a 'mlaen o 60 milltir at yr agosaf wedyn, ond os ydw i eisiau mynd i'r cyfeiriad arall mae'n debyg y byddai'r daith yn 100 milltir dros y mynyddoedd ac yn ôl. Nawr mae'n rhaid i mi wneud yn siŵr fy mod yn cymryd digon o arian pan fyddaf yn cyrraedd y banc i bara am rai wythnosau.” **Ymatebydd i'r arolwg**

“Cawsom ein magu mewn amser pan ddywedodd Dad 'Dydych chi ddim yn prynu dim oni bai eich bod chi'n talu amdano'... a'r cyfan rwy'n ei ddefnyddio yw arian parod. Prin y bydda i'n defnyddio cerdyn am na alla i weld yr arian yn mynd.” **Cyfranogwr, Llanfyllin**

17. Sefydliad dielw yw LINK sy'n rheoli rhwydwaith ATM mwyaf y DU. Ei nod datganedig yw cynnal y cwmpas daearyddol eang cyfredol o fynediad am ddim at arian parod yn y DU cyhyd â bod angen mynediad am ddim at arian parod ar ddefnyddwyr, ac mae LINK yn credu bod mynediad at arian parod am ddim i ddefnyddwyr yn wasanaeth cenedlaethol hanfodol.¹⁹

18. Tynnodd LINK sylw at y dirywiad cyflym yn y defnydd o arian parod gan nodi bod arian parod yn cyfrif am 6 allan o 10 taliad defnyddiwr ddeng mlynedd nôl. Heddiw mae'n 3 o bob 10. Ymhen deng mlynedd, bydd yn 1 o bob 10. Mae'n dweud bod y newid mawr hwn yn ymddygiad defnyddwyr yn golygu y bydd yn

¹⁸ <https://press.which.co.uk/whichpressreleases/deprived-of-cash-poorer-areas-worst-hit-by-rapid-move-to-fee-charging-cashpoints/>

¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig

rhaid i'r seilwaith ategol, gan gynnwys peiriannau ATM, addasu, ac mae'n rhannu'r pryderon a fynegwyd gan Which? ynghylch yr angen i weithredu:

“It is not sustainable to sleepwalk into this level of change without planning for it. The lessons from other countries who are more advanced in their moves to digital is that the UK should plan for this change rather than drift into it and risk leaving some consumers behind.”²⁰

19. Y Rheoleiddiwr Systemau Talu (PSR) yw'r rheoleiddiwr economaidd ar gyfer y diwydiant systemau talu yn y DU. Mae'n rheoleiddio llawer o'r systemau sy'n symud arian pobl - gan gynnwys LINK. Dywed y Rheoleiddiwr fod llai o ddefnydd o arian yn cael dwy effaith bwysig yn benodol. Yn gyntaf mae'n golygu bod costau darparu a gweithredu'r rhwydwaith gyfredol o beiriannau ATM rhad ac am ddim i'w defnyddio yn cael eu gwasgaru dros nifer lai o drafodion, sy'n cynyddu'r gost gyfartalog fesul trafodiad. (Mae'r banciau'n talu'r costau hyn bob tro y mae eu cwsmeriaid yn tynnu arian parod o beiriant ATM sefydliad arall, drwy ffi gyfnewidfa LINK. Yn y pen draw, mae'r ffi hon yn rhan o'r gost o ddarparu cyfrifon banc “am ddim” sy'n caniatáu mynediad i'r rhwydwaith LINK o beiriannau ATM.) Mae'r gostyngiad yn y defnydd o arian parod hefyd yn effeithio ar sut y mae busnesau'n dewis derbyn taliadau, gan fod y gost o drin arian parod a derbyn taliadau electronig yn newid dros amser. Mater penodol yma yw'r gallu i fusnesau adneuo derbyniadau arian parod, a chost gysylltiedig hynny.

20. Mae'r Rheoleiddiwr Systemau Talu yn monitro argaeledd peiriannau ATM am ddim a pheiriannau talu i'w defnyddio yng Nghymru a'r DU. Dywedodd fod nifer yr achosion o dynnu arian parod allan wedi gostwng 4 y cant rhwng mis Mawrth 2018 a 2019 yng Nghymru, gyda nifer y peiriannau ATM rhad ac am ddim i'w defnyddio yn gostwng 10 y cant (o 2,517 i 2,281), a nifer y peiriannau ATM talu i'w defnyddio yn cynyddu 1 y cant (o 724 i 732). Mae'r newidiadau canrannol hyn yn debyg iawn i rai'r Deyrnas Unedig yn gyffredinol.

21. Sefydlwyd Rhaglen Cynhwysiant Ariannol LINK yn 2006 i ddarparu cymhellion i weithredwyr ATM ddarparu peiriannau ATM rhad ac am ddim i'w defnyddio mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol. Mae'r rhaglen yn darparu premiymau ffi gyfnewidfa i beiriannau ATM yr ystyrir eu bod yn cael eu gwarchod: mae'r peiriant ATM rhad ac am ddim i'w ddefnyddio olaf mewn ardal ddifreintiedig yn gymwys i gael premiwm o 30c, gyda rhai yn gymwys i gael premiwm uwch o hyd at £2.75 am bob trafodiad codi arian er mwyn cynnal proffidioldeb y peiriant. Yn ogystal â hynny, mae LINK wedi ymrwymo i gynnal

²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig

lledaeniad daearyddol peiriannau ATM ac i sicrhau bod peiriant ATM am ddim o fewn 1km i'r peiriant ATM rhad ac am ddim nesaf. Pan ddaw ATM y peiriant ATM olaf o fewn radiws 1km, mae LINK yn ei ddynodi'n "warchoddedig" ac yn gweithredu yn unol â'i bolisi ATM gwarchoddedig. Yn ôl y Rheoleiddiwr Systemau Talu, enillodd 137 o beiriannau ATM rhad ac am ddim i'w defnyddio (22 yng Nghymru) statws gwarchoddedig rhwng mis Gorffennaf 2018 a mis Mawrth 2019, gan ddod â chyfanswm y DU o beiriannau ATM gwarchoddedig i 2,502 (183 yng Nghymru).²¹

22. Dywedodd LINK ei fod wedi bod yn cymryd camau i sefydlogi'r farchnad, gan nodi bod y trefniadau masnachol ar gyfer y ffi gyfnewidfa ar gyfer peiriannau ATM rhad ac am ddim i'w defnyddio yn arwain at doreth mewn ardaloedd trefol fel Caerdydd, lle mae 18 o beiriannau ATM o fewn 100m i'w gilydd a 55 o fewn 250m, ac eto dim ond un peiriant ATM am ddim sydd gan dros 183 o ganolfannau gwledig yng Nghymru o fewn cilomedr i'r nesaf.²² Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon, gostyngodd LINK y ffi gyfnewidfa sy'n daladwy i beiriannau ATM trefol a'i chynyddu ar gyfer ardaloedd gwledig ac anghysbell. Mae'n dweud, ers y newidiadau, o fis Ionawr 2018 i fis Mai 2019 y bu gostyngiad mewn peiriannau ATM mewn ardaloedd trefol sydd wedi'u gor-ddarparu, ac mae'n nodi bod nifer y peiriannau ATM am ddim bellach ar yr un lefel yng Nghymru ag yn 2015. Dywed nad yw pob sefydliad masnachol preifat yn croesawu'r newid gan ei fod yn lleihau refeniw, ond mae'r farchnad ar y cyfan wedi bod yn gefnogol ac mae'r ddarpariaeth o beiriannau ATM am ddim ledled y DU, gan gynnwys yng Nghymru, yn parhau i fod yn foddhaol.²³ Dywed fod angen iddo hefyd barhau i warchod y 183 (8 y cant) o beiriannau ATM gwledig ac anghysbell yng Nghymru sydd heb unrhyw beiriant arall o fewn cilomedr.

23. Dywedodd Which?, er ei fod yn cytuno â'r bwriad y tu ôl i fesurau LINK, ei fod yn pryderu oherwydd pwysau masnachol gan aelodau, na all LINK warantu y bydd yr amddiffyniadau a gynigir gan y Rhaglen Cynhwysiant Ariannol yn gweithio'n ymarferol ac o fudd i bobl ledled cymunedau Cymru.²⁴ Dywedodd Thomas Docherty o Which? wrth y Pwyllgor fod angen i LINK a'r rheoleiddwyr wneud mwy.²⁵ Mae Which? yn pryderu bod y gostyngiad mewn peiriannau ATM rhad ac am ddim i'w defnyddio yn cael ei yrru gan fuddiannau busnes, heb roi ystyriaeth ddigonol i anghenion defnyddwyr a chymunedau lleol. Heb i Lywodraeth y DU,

²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig

²² Tystiolaeth ysgrifenedig

²³ Tystiolaeth ysgrifenedig

²⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig

²⁵ Paragraff 22, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 13 Mehefin 2019

rheoleiddwyr a busnesau gymryd camau pellach, dywedodd Which? fod perygl o symud tuag at gymdeithas heb arian parod cyn bod pawb yn barod, lle gallai miliynau o ddefnyddwyr sy'n dal i ddibynnu ar arian parod gael eu gadael ar ôl.²⁶ Dywed, heb fynediad am ddim at arian parod y gallai llawer o bobl yng Nghymru ei chael yn fwy anodd rheoli eu harian a gwneud taliadau, ac y gallant deimlo'n agored i niwed mewn cymdeithas lle na ellir dibynnu ar dechnoleg bob amser.²⁷

24. Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach hefyd yn tynnu sylw at y ffaith y gall twristiaid tramor orfod talu taliadau sylweddol yn aml am bob trafodiad cerdyn credyd ac felly bydd yn well ganddynt ddefnyddio arian parod.²⁸ Mae absenoldeb cyfleusterau arian parod mewn ardaloedd sy'n ddibynnol iawn ar dwristiaeth yn cael effaith sylweddol ar fusnesau lleol yng Nghymru.

“Roedd yr holl beiriannau ATM yn Abermaw yn rhedeg allan o arian ar benwythnos y Pasg, a gwnaeth y siopau STOPIO rhoi arian parod i gwsmeriaid. Rhaid bod hyn wedi cael effaith ar y siopau bach, argraff wael ar ymwelwyr â'r ardal, a fyddech chi'n mynd yn ôl i ardal lle na allwch brynu hufen iâ?”

“Rwyf yn y busnes twristiaeth ac yn clywed twristiaid tramor yn cwyno am ddiffyg peiriannau arian yn gyson, mae hyn yn golygu eu bod yn gwario llai yn ein trefi.”

Ymatebwyr i'r arolwg

“Mae'r ciwiau'n hurt. Mae gan dwristiaid broblem gyda hyn, gallwch chi eu clywed yn ei drafod yn y ciw. Ni fydd yn helpu'r diwydiant yma.” **Cyfranogwr mewn grŵp ffocws, Ceredigion**

“Rydyn ni'n cael llawer o bobl yn dod i mewn...fel cerddwyr sy'n dod oddi ar y trê. Felly, y penwythnos hwn mae hyn yn mynd i fod yn fawr oherwydd mae gennym ni y rali hen geir yn dod ac os nad yw pobl wedi dod â digon o arian gyda nhw, ble maen nhw'n mynd i fynd i'w gael? Mae'n mynd i fod yn lletchwith iawn.” **Cyfranogwr mewn grŵp ffocws, Llanwrtyd**

25. Tynnodd Adrian Greason-Walker o Gynghrair Twristiaeth Cymru sylw at y ffaith bod yr effaith ar fusnesau twristiaeth yng nghefn gwlad Cymru hyd yn oed yn fwy nag mewn rhannau eraill o'r DU. Mae'r gwir wariant twristiaeth fesul ymwelydd yn is yng Nghymru (tua £25 i £30 y dydd yn hytrach na £40 i £50 y dydd

²⁶ Paragraff 22, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 13 Mehefin 2019

²⁷ Paragraff 22, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 13 Mehefin 2019

²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig

yn yr Alban) ac felly mae cael gwared ar fynediad at beiriant ATM yn lleihau'r gallu i wario hyd yn oed yn fwy.²⁹

26. Rhybuddiodd Thomas Docherty o Which? hefyd ynghylch gwytnwch economaidd, gan nodi sut yr oedd methiant TG mewn cwmni cardiau credyd amlwg y llynedd wedi dod â'r DU i o fewn 48 awr o redeg allan o arian parod, ac arweiniodd cau'r peiriant ATM olaf yn Lossiemouth ym mis Mehefin i dref yr Alban redeg allan o arian parod o fewn dyddiau. Mae Which? yn rhybuddio bod cynaliadwyedd seilwaith arian parod y DU mewn perygl gan nad oes gan yr un sefydliad gyfrifoldeb cyffredinol dros arian parod, a goruchwyllo arian parod.³⁰ Yn yr un modd, amlygodd LINK mai gwendid allweddol yn y trefniadau cyfredol yw nad oes unrhyw sefydliad yn gyfrifol am sicrhau mynediad at arian parod mewn cymuned benodol, ac mae lleoliad peiriannau ATM yn dibynnu ar ddefnyddwyr a manwerthwyr masnachol unigol. Dywedodd LINK fod angen mynd i'r afael â hyn gyda chefnogaeth reoleiddiol.

27. Cred LINK fod cydgysylltu cyffredinol cryfach a chydweithrediad agosach rhwng endidau fel LINK a Swyddfa'r Post yn bwysig. Cred hefyd fod arloesi i ganiatáu darparu arian parod am ddim wrth dilliau manwerthwyr, mewn modd tebyg i'r hyn a ddefnyddir gan Swyddfa'r Post, yn ychwanegiad defnyddiol at y seilwaith arian parod ac mae'n gweithio gyda nifer o sefydliadau i ddatblygu hyn. Yn ôl LINK:

“ensuring that all locations, including rural and remote ones, retain free access to cash will depend on determined coordination between these various channels, supported by regulators and government. It is no longer acceptable to leave this to market forces, and commercial organisations which drive a focus on profit rather than consumer need.”³¹

28. Mae'r Adolygiad Annibynnol o Fynediad at Arian Parod a gomisiynwyd gan LINK wedi galw ar y Llywodraeth a rheoleiddwyr i gamu i mewn ar frys i sicrhau bod arian parod yn parhau i fod yn hyfyw. Roedd ei argymhellion yn adroddiad mis Mawrth 2019 yn cynnwys “Gwarant Mynediad at Arian Parod” i bawb, gan gynnwys y rheini mewn ardaloedd anghysbell a gwledig, i'r rheini sy'n darparu gwasanaethau hanfodol er mwyn caniatáu i ddefnyddwyr dalu gydag arian parod,

²⁹ Paragraff 219, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 19 Mehefin 2019

³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig

³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig

ac am seilwaith arian parod cyfanwerthu mwy effeithlon, effeithiol a gwydn³² i sicrhau bod arian parod yn parhau i fod yn hyfyw wrth i'w ddefnydd ddirywio.

29. Yn dilyn argymhellion yr Adolygiad, mae LINK wedi croesawu sefydlu Grŵp Strategaeth Arian Parod yr Awdurdodau ar y Cyd (JACS) newydd - dan gadeiryddiaeth Trysorlys Ei Mawrhydi ac yn dwyn ynghyd y rheoleiddwyr a Banc Lloegr - i ddarparu goruchwyliaeth gynhwysfawr o system arian parod y DU. Mae cylch gorchwyl Grŵp JACS yn ei ddisgrifio fel fforwm cydweithredol i hwyluso deialog a chydgysylltiad. Mae Which? hefyd yn croesawu'r dull cydgysylltiedig, gan ddweud ei fod yn hanfodol ei fod yn gweithio'n gyflym i ddiogelu mynediad pobl at arian parod ac i adeiladu seilwaith arian cynaliadwy ar gyfer Cymru a gweddill y DU.³³

30. Mae Which? yn nodi y dylai'r grŵp JACS weithredu nawr i atal peiriannau ATM gwarchodedig rhag cau ac ymrwymo i adolygu darpariaeth ATM; adolygu'r Rhaglen Cynhwysiant Ariannol gyfredol, ystyried pa amddiffyniadau y mae angen eu sefydlu i gynnal mynediad at arian parod i ddefnyddwyr ledled y DU a'r llywodraeth, rheoleiddwyr a Banc Lloegr i gyhoeddi strategaeth ac amserlen glir ar gyfer y camau nesaf.³⁴

31. Ar 30 Awst 2019 cyhoeddodd LINK, pe bai stryd fawr yn cael ei bygwth â cholli ei pheiriant ATM olaf, y bydd yn camu i mewn i sicrhau bod peiriant ATM rhad ac am ddim ar gael ac y telir amdano gydag arian gan holl brif fanciau a chymdeithasau adeiladu y DU os nad oes cownter Swyddfa'r Post gerllaw i wasanaethu'r gymuned honno.³⁵ Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cynnig hwn gan LINK. Disgrifiodd Which? y cynnig hefyd fel rhywbeth a gaiff ei groesawu'n fawr, er i Gareth Shaw, Pennaeth Arian, Which?, fynd ymlaen i rybuddio nad yw'r mesurau hyn ar eu pennau eu hunain yn debygol o fod yn ddigon i atal cau peiriannau ATM sydd wedi gadael cymunedau ar draws y DU yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar arian parod. Rhaid i grŵp strategaeth mynediad at arian parod newydd y llywodraeth archwilio pob opsiwn ar frys - gan gynnwys deddfwriaeth - i sicrhau bod system gadarn ar waith i gadw mynediad am ddim at arian parod cyhyd ag y mae ei angen ar bobl.³⁶

³² www.accesstocash.org.uk/media/1087/final-report-final-web.pdf

³³ Tystiolaeth ysgrifenedig

³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig

³⁵ www.link.co.uk/about/news/link-access-to-cash-commitment/

³⁶ www.which.co.uk/news/2019/08/atms-to-be-installed-in-remote-communities-as-part-of-a-new-vow-to-protect-access-to-cash/

- 32.** Mae'r Rheoleiddiwr Systemau Talu yn aelod o'r grŵp JACS, a dywedodd y byddai hefyd yn croesawu'r cyfle i weithio ar hyn gyda'r seneddau datganoledig.³⁷
- 33.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymdrechion LINK i amddiffyn mynediad at beiriannau ATM rhad ac am ddim i'w defnyddio yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Fel y nododd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, gall fod yn ddrud ac yn feichus i fusnesau bach ymgymryd â'r gwaith o ddarparu peiriant ATM, ond mae'n hanfodol bwysig cadw seilwaith arian parod Cymru:
- “let's make no bones about it, once the infrastructure has gone, it's really hard to put it back. So, once you've closed everything in an area, trying to put back—even the electronic means of delivering cash is really hard. So, it is about trying to preserve what we've got as well as trying—. If we go into the space where we're trying to retrofit it, then we're in real trouble, it seems to me.”³⁸
- 34.** Holwyd y Gweinidog hefyd ynghylch mesurau i sicrhau nad oedd penderfyniadau cynllunio lleol yn cael effaith negyddol ar ddarpariaeth ATM, er enghraifft cydbwysu ystyriaethau treftadaeth â'r angen am fynediad at arian parod. Dywedodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol fod Polisi Cynllunio Cymru yn caniatáu'r math hwnnw o ddatblygiad, ond bod Llywodraeth Cymru yn edrych eto ar rai o'r Gorchymynion dosbarth defnydd. Dywedodd mai tafarndai oedd yr hyn a oedd yn cael ei drafod ddoe, ond mae'r banc olaf yn un arall a drafodir o ddifrif; p'un a fyddai'n ei gwneud yn llawer mwy anodd i newid defnydd. Felly, ar hyn o bryd, mae'r Gorchymyn dosbarth defnydd yn eang iawn ar gyfer y math hwnnw o weithrediad manwerthu, felly ystyrir a ddylid ei gulhau.³⁹
- 35.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu sefydlu'r grŵp JACS i fynd i'r afael â'r holl broblemau gyda mynediad at arian parod, ond mae'n nodi y bydd yn cwrdd oddeutu bob chwarter, yn cael ei arwain gan Drysorlys EM, ac nid oedd yn glir o dystiolaeth yn union sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag ef ac yn cyflwyno safbwynt Cymru, a'r hyn y bydd JACS yn ei gyflawni.

Argymhelliad 1. Rhaid i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu ei hymgysylltiad â Grŵp Strategaeth Arian Parod yr Awdurdodau ar y Cyd (JACS) a sicrhau bod

³⁷ www.which.co.uk/news/2019/08/atms-to-be-installed-in-remote-communities-as-part-of-a-new-vow-to-protect-access-to-cash/

³⁸ Paragraff 36, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 3 Gorffennaf 2019

³⁹ Paragraff 40, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 3 Gorffennaf 2019

anghenion penodol Cymru yn cael eu cynrychioli a'u hadlewyrchu yn y camau a gymerir i amddiffyn a gwella mynediad at arian parod.

Argymhelliad 2. Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i weithio gyda LINK a'r rheoleiddwyr ar ymdrechion i gryfhau a chefnogi'r rhwydwaith peiriannau ATM rhad ac am ddim presennol, a sicrhau bod peiriannau ar gael yn y lleoliadau lle mae eu hangen fwyaf.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall hybiau rhanbarthol, a chydweithrediad rhwng gwahanol asiantaethau wella'r mynediad at arian parod yng nghymunedau Cymru (gan gydnabod bod trin arian parod yn fusnes drud).

Argymhelliad 4. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda llywodraeth leol i sicrhau bod cynlluniau datblygu lleol yn mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i gynnal y seilwaith arian parod, er enghraifft drwy gydbwysu mesurau cadwraeth treftadaeth â'r angen i gynnal mynediad at beiriannau ATM mewn ardaloedd gwledig.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i'r Pwyllgor ar sut y bydd ei chynlluniau i ddiwygio'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd Cyfunol a'r hawliau datblygu a ganiateir yn ystyried yr angen i amddiffyn a chynnal seilwaith bancio yng nghymunedau Cymru.

3. Mynediad at wasanaethau bancio

36. Mae cau canghennau banc yn broblem ledled Cymru, nid dim ond yn nodwedd o ardaloedd gwledig, ond mae'r ardaloedd mwy anghysbell hyn hefyd dan anfantais ddwbl oherwydd problemau cysylltedd. Mae problemau symudedd i'r rheini nad oes ganddynt fynediad i'w cludiant eu hunain - rhaid i bobl ystyried cost a dichonoldeb teithio ymhellach i gael gafael ar arian parod. Mae problemau hygyrchedd eraill hefyd - gall banciau ymhellach i ffwrdd fod yn llai hygyrch yn gorfforol, ni fydd gan staff y wybodaeth leol i gynorthwyo cwsmeriaid sy'n agored i niwed neu gwsmeriaid anabl, ac mae gwasanaethau Swyddfa'r Post yn aml mewn lleoliadau anghyraeddadwy fel y tu mewn i siopau. I'r rhai ag awtistiaeth er enghraifft, gall fod yn anodd mynd i amgylchedd newydd a phrysus.

"Arferai taith i'r banc gymryd 15 munud. Gallwn i barcio y tu allan, bydden nhw'n fy helpu i mewn i'r adeilad ac roeddwn i'n adnabod y staff ac felly roedden nhw'n gwybod sut i fy helpu. Nawr rhaid imi yrru am awr i'm banc agosaf, mae'r lleoedd parcio yn bell i ffwrdd a tydw i ddim yn adnabod y staff." **Cyfranogwr mewn grŵp ffocws, Ceredigion**

"Os nad oes gennych chi eich cludiant eich hun yma rydych chi'n sownd mewn gwirionedd ac nid yw'n beth neis o gwbl." **Cyfranogwr mewn grŵp ffocws, Llanwrtyd**

"Dydw i ddim yn gwybod sut y bydda i'n ymdopi pan na alla i yrru. Rwy'n 80 oed nawr ac felly fydd hynny ddim yn hir. Bydd yn llawer o drafferth wedyn." **Cyfranogwr mewn grŵp ffocws, Llanfyllin**

"I live in Rhayader, where there is now no bank operating. To some extent I can use the Post Office, as long as that remains in situ, to access some banking services or cash. Otherwise I have a 22 mile round trip by car or bus. I will use half a gallon of petrol in the car, the bus is free to pensioners but runs at 2 hour intervals. If I cannot get everything I need done within 20 minutes the bus journey will take 3 hours. I can do a great deal of my bank procedures via internet banking, but I have that ability and that resource, many people of my age do not." **Unigolyn C**

"I lawer o bobl hŷn, mae teithio i dref neu archfarchnad arall yn cyflwyno ei heriau ei hun. Mae'n bosibl na fydd llawer o bobl hŷn yn gallu gyrru neu nad oes ganddynt fynediad at gludiant preifat, felly maen nhw'n dod yn fwy dibynnol ar wasanaethau bysiau, sy'n lleihau o ran nifer ac amllder, yn enwedig yn ardaloedd gwledig Cymru." **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

37. Mae'r effaith y mae cau banciau yn ei chael ar y stryd fawr a'r economi leol yn peri pryder mawr - mae arian yn cael ei ddraenio o gymunedau llai a strydoedd mawr i'r trefi mwy gyda mwy o gyfleusterau bancio. Ac i fusnesau Cymru mae baich ychwanegol diriaethol hefyd wrth geisio rhedeg busnes heb fynediad lleol at ystod o wasanaethau bancio. Twristiaeth yw un o'r sectorau pwysig sy'n teimlo'r effaith fwyaf o ddiffyg mynediad at arian parod. Mae ymchwil yn cadarnhau bod yr effaith ar economi Cymru yn benodol, gyda'i nifer fawr o fusnesau bach a chanolig eu maint, yn arbennig o fawr o ran mynediad llai at gredyd a chyllid.

38. Mae tensiwn amlwg rhwng canfyddiad cwsmeriaid o fanciau fel gwasanaeth cyhoeddus hanfodol a phenderfyniadau ar gau banciau sy'n cael eu gadael yn gyfan gwbl i'r farchnad, gyda chwsmeriaid yn cael gwybod am y banciau'n cau yn hytrach nag ymgynghori ar hyn.

“Doedden nhw ddim wedi cael cyfarfod cyffredinol er mwyn i bobl allu mynegi eu barn. Dim byd. Dim byd o gwbl.” **Cyfranogwr, Llanwrtyd**

“Ces i gwrdd ag un o uwch-reolwyr HSBC a gwnaethom dreulio awr yn y swyddfa gyda hi. Yn yr awr honno daeth 17 o bobl i mewn ond mynnodd mai pedwar y dydd oedd yn defnyddio'r banc a dyna pam roedd hi'n cau.”

Cyfranogwr, Llanfyllin

Y Safon Mynediad at Fancio - y broses ar gyfer cau banciau

39. Mae'r Safon Mynediad at Fancio, a gyflwynwyd ym mis Mai 2017, y gall banciau a chymdeithasau adeiladu ddewis bod ynghlwm wrthi, yn nodi sut y dylai cwsmeriaid gael gwybodaeth a chymorth amserol a gwell ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud i gau cangen banc. Mae'r Safon yn pennu disgwyliadau pwysig o ran sut y dylai cwsmeriaid gael eu cynorthwyo a'u hysbysu drwy gydol unrhyw broses gau fel na fydd unrhyw gwsmer yn cael ei adael ar ôl. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau ddarparu cymorth i'r rhai sydd ei angen, i gael mynediad at wasanaethau bancio ar-lein neu symudol, neu i ystyried dewisiadau eraill.

40. Mae egwyddor gyffredinol y Safon yn nodi fel a ganlyn:

“Customers and relevant stakeholders of a bank branch that is closing will be provided with clear, understandable, accessible documentation and information about that specific closure as soon as the bank is able

to do so, also what it will mean for them and how they can continue to bank following its closure.”⁴⁰

41. Dewiswyd y Bwrdd Safonau Benthycia fel y corff priodol i oruchwylio cymhwysiad y Safon Mynediad at Fancio ym mis Gorffennaf 2017. Mae'r Bwrdd Safonau yn gorff hunan-reoleiddiol, sy'n darparu goruchwyliaeth annibynnol dros gadw at safonau gwirfoddol.

42. Dywedodd UK Finance, y corff sy'n cynrychioli'r diwydiant bancio a chyllid ei fod wedi “gweithredu'r Safon Mynediad at Fancio i ddarparu gwybodaeth a chymorth i gwsmeriaid a fydd yn cael eu heffeithio yn sgil cau canghennau”. Mae'n nodi bod y Safon yn cael ei monitro'n annibynnol gan y Bwrdd Safonau Benthycia, y dangosodd ei adroddiad diwethaf ym mis Medi 2018 y bu cydymffurfriad da gan y diwydiant. Dywedodd UK Finance:

“Looking after every customer, especially those in vulnerable circumstances, is a priority for our members. Ensuring that people have access to banking and other financial services is a vital part of this.”⁴¹

43. Awgrymodd ymatebwyr i ymchwiliad y Pwyllgor, er eu bod yn cydnabod bod banciau'n fusnesau preifat, eu bod hefyd yn cynnig “ gwasanaeth cyhoeddus o bwys na ellir gwneud hebdo”⁴². Fodd bynnag, mae tensiwn yma gyda'r banciau eu hunain gan fod y Safon Mynediad at Fancio yn nodi:

“Banks are committed to providing access to banking across all the channels they deal with customers through. Banks can and will realign those channels in line with customer demand from time to time. This is a commercial decision for the bank alone.”⁴³

Y broses gau

44. Yn ôl UK Finance, gwneir penderfyniadau cau ar ôl cymhwyso nifer o lensys, gan gynnwys argaeledd mynediad parhaus at arian parod yn y gymuned, boed hynny drwy fanciau cyfagos eraill, peiriannau ATM neu swyddfeydd post.⁴⁴ Mewn amgylchiadau lle mae banciau'n credu y byddai cau cangen (a chael gwared ar y

⁴⁰ www.lendingstandardsboard.org.uk/wp-content/uploads/2017/07/Access_to_Banking_Standard.pdf

⁴¹ Tystiolaeth ysgrifenedig

⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig - Cytûn - Eglwys Ynghyd yng Nghymru

⁴³ www.lendingstandardsboard.org.uk/wp-content/uploads/2017/07/Access_to_Banking_Standard.pdf

⁴⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig

peiriant ATM) yn gadael cymuned heb fynediad hawdd at arian parod, maent yn ystyried ffyrdd eraill o ddarparu peiriant ATM rhad acm ddim i'w ddefnyddio yn y gymuned.

45. Mae'r Eglwys yng Nghymru yn awgrymu nad yw pob banc yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod banc yn cau, a hefyd nid oes gofyniad i fanciau ymgynghori ar leihau oriau agor:

“By the time closure is inevitable, bank opening hours will have reduced to an extent that creates a vicious circle: reduced hours leading to reduced usage, leading to unviable business. If there was an obligation to consult the community before bank opening hours were reduced, the self-sustaining damage of declining usage might be halted, and closure would not become inevitable.”⁴⁵

46. Pan holwyd David Pickering o'r Bwrdd Safonau Benthycyca ynghylch y “cylch dieflig” hwn o lai o oriau agor gan arwain yn anochel at gau, dywedodd nad oedd yn credu ei fod mor glir â hynny ym mhob achos,⁴⁶ gan nodi y gallai llai o staff weithiau fod yn ffordd o wneud darpariaeth canghennau yn fwy cost-ffeithiol. Cyfaddefodd, ers i'r Bwrdd gymryd drosodd yr oruchwyliaeth annibynnol o'r Safon Mynediad at Fancio, nid oedd ond yn gwybod am un achos lle roedd banc - Royal Bank of Scotland - wedi adolygu ei benderfyniad i gau ac wedi cadw 2 allan o 10 cangen, ac y gwnaed y penderfyniad adolygu gan y banc, nid o ganlyniad i ymgynghoriad neu ymgysylltiad â rhanddeiliaid. Nid oedd proses diwydrwydd dyladwy y Bwrdd yn edrych ar gau canghennau unigol, ond ar sampl o ganghennau - dywedodd David Pickering fod yr un broses yn cael ei defnyddio ond yn amlwg mae'r effeithiau'n wahanol mewn gwahanol drefi.⁴⁷

47. Mae Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn dweud bod gan ei aelodau lefel isel o ymwybyddiaeth a hyder yn y Protocol Mynediad at Fancio blaenorol. Mae'r Ffederasiwn yn nodi achosion lle mae'r wybodaeth sy'n cyfeirio cwsmeriaid at wasanaethau bancio amgen, fel Swyddfa'r Post agosaf, wedi dyddio neu'n anghywir. Dywedodd David Pickering o'r Bwrdd Safonau Benthycyca ei fod yn credu bod gwelliannau wedi'u gwneud ers amser ymchwil y Ffederasiwn Busnesau Bach yn 2016 (dechreuodd goruchwyliaeth annibynnol o'r Safon Mynediad at Fancio, olynydd y Protocol Mynediad at Fancio hunanreoledig, yn 2017).

⁴⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig

⁴⁶ Paragraff 199, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Mehefin 2019

⁴⁷ Paragraff 186, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Mehefin 2019

Dywedodd Eric Leenders o UK Finance nad oedd yn ymwybodol o achosion o'r fath, ac y byddai'n disgwyl y byddai'r broses archwilio sydd ar waith yn ei nodi:

“it can be on occasion that a post office might close at short notice, which does create a local difficulty. I'd return to the point that the oversight and audit scrutiny by the Lending Standards Board is designed to ensure that, if there is a systematic failure, that is picked up, that is fed back to the bank concerned, and they can remediate their processes accordingly.”⁴⁸

48. Dywed Unite nad yw hyn o safon. Mewn gwirionedd nid yw'r cytundeb hwn yn rhoi unrhyw ymgynghoriad ystyrlon i ddefnyddwyr na staff er mwyn canfod effaith wirioneddol cau cangen. Yn ôl Which?, nid yw darparu Asesiad o Effaith yn amddiffyn nac yn cynrychioli buddiannau'r gymuned o ran cau canghennau.⁴⁹ Aeth Unite ymlaen i ddweud y gallai Safon well amddiffyn swyddi a gwasanaethau yn y dyfodol o fewn y sector cyllid ledled Cymru.

49. Tynnodd UK Finance sylw at ymdrechion a wnaed i ddiwygio'r Safon, i gynyddu tryloywder ynghylch y diwydrwydd dyladwy a'r broses benderfynu fewnol ar gyfer cau banciau. Dywedodd David Pickering o'r Bwrdd Safonau Benthycia nad oedd yn credu bod banciau'n gwneud penderfyniadau i gau'n ysgafn, a'u bod yn ystyried anghenion cwsmeriaid sy'n agored i niwed a busnesau bach wrth gynnal asesiadau o effaith ar gyfer cau.⁵⁰

50. Dywedodd Chris Larmer o The Cooperative Bank, yr unig fanc ar y stryd fawr i roi tystiolaeth lafar i'r ymchwiliad, wrth y Pwyllgor fod y Banc yn gweld y safon bancio fel “isafswm”. Dywedodd fod y banc yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â chymunedau, ac yn cynnal asesiad o effaith cyn cau cangen, a bod yr ymgynghoriad yn bwysig iddo.⁵¹

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth y DU a'r grŵp JACS adolygu a yw'r Safon Mynediad at Fancio yn ddigon cadarn i fynd i'r afael ag effaith cau banciau ar bobl sy'n agored i niwed, busnesau bach a chanolig a chymunedau lleol, neu a oes angen cymryd camau rheoleiddio neu gamau lliniaru eraill.

⁴⁸ Paragraff 42, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 19 Mehefin 2019

⁴⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig

⁵⁰ Paragraff 180, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 19 Mehefin 2019

⁵¹ Paragraff 35, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 19 Mehefin 2019

4. Dewisiadau amgen i wasanaethau cangen

4. 1. Gwasanaethau digidol a bancio ar-lein

51. Nid yw'r galw am dechnoleg ddigidol a'r cyflenwad ohoni ar gyfer bancio ar-lein a bancio mewn apiau yn cydnabod y realiti i nifer sylweddol o bobl na allant gael mynediad at wasanaethau'n ddigidol. Mae sefydliadau ariannol a'r llywodraeth yn tynnu sylw at waith sy'n cael ei wneud i hyrwyddo gwasanaethau digidol ac annog eu defnydd, ond mae data gan Which? a chanlyniadau ymgynghoriad y Pwyllgor ei hun yn dangos bod llawer o bobl yn anfodlon neu'n methu â symud i ddefnyddio gwasanaethau'n ddigidol. Dywed Undeb Credyd Dragonsavers fod diffyg dealltwriaeth gan ddarparwyr ynghylch pobl nad oes ganddynt ffonau na chyfrifiaduron, neu eu bod yn anfodlon neu'n methu â'u defnyddio ar gyfer bancio digidol,⁵² ac nid yw 51 y cant o bobl dros 75 oed yng Nghymru yn ddefnyddwyr rheolaidd o'r rhyngwrwd.⁵³

“Pensioners make up one-third of adults without a basic bank account and 6% of households with someone aged 85+ have no bank or post office account.

“Almost one-fifth of people aged 65+ use others to draw cash for them as a result of a variety of issues including their inability to access physical financial services or to remember their PIN number. This decreases independence and increases risk of financial abuse. Poor design makes it difficult for some older people to take up new banking technologies, for example telephone banking systems and security devices for internet banking.” **Age Cymru**

52. Mae diffyg ymddiriedaeth mewn bancio ar-lein yn broblem fawr, yn enwedig ymhlith pobl hŷn. Dywedodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru “wrth i sgiliau a hygyrchedd wella, gwelir fwyfwy mai diffyg diddordeb, cymhelliant ac ymddiriedaeth yw'r rhesymau dros beidio â mynd ar-lein”.⁵⁴ Dywedodd Valentine Mulholland o'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau eu bod wedi gweld ymchwil sy'n dangos, nad yw hyd yn oed y rhai a allai ymgysylltu â bancio ar-lein - eu bod yn ymgysylltu'n ddigidol - yn ymddiried mewn bancio ar-lein, nad ydynt yn ymddiried yn eu trafodion ac mae cyffredinolrwydd sgamiau.⁵⁵ Ychwanegodd Lee Phillips o'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau fod 76 y cant o bobl yng Nghymru yn

⁵² Tystiolaeth ysgrifenedig

⁵³ Arolwg Cenedlaethol Cymru - ffigurau diwygiedig ar gyfer mis Mehefin 2019

⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig

⁵⁵ Paragraff 249, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Mehefin 2019

siopa ar-lein, ond dim ond 67 y cant sy'n bancio ar-lein⁵⁶ a nododd Derek Walker o Ganolfan Cydweithredol Cymru fod Senedd Pensiynwyr 2019⁵⁷ wedi mynegi pryderon ynghylch preifatrwydd a diogelwch ar-lein ac felly roedd hyfforddiant cynhwysiant digidol yng Nghymru yn canolbwyntio ar hynny.

53. Croesawodd y Comisiynydd Pobl Hŷn waith rhaglen Cymunedau Digidol Cymru Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y rhaglen Arwyr Digidol i ddisgyblion ymgysylltu â phobl hŷn mewn cartrefi gofal i “chwalu rhwystrau digidol a rhwng cenedlaethau”, a'r cynllun Cyfeillion Digidol i “[f]anteisio ar ewyllys da a sgiliau pobl sy'n hapus i ddefnyddio'r rhyngwrdd i ddod yn ffrindiau gyda rhywun sydd ddim”.⁵⁸

54. Dywedodd Derek Walker o Ganolfan Cydweithredol Cymru, sy'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu Cymunedau Digidol Cymru, o ran allgáu digidol, roedd Cymru yn gyffredinol wedi tueddu i fod â chyfraddau uwch na gweddill y DU⁵⁹ oherwydd cyfrannau uwch o bobl hŷn, pobl anabl a phobl ar gyflogau isel, ond bod sefyllfa Cymru o gymharu â rhannau eraill o'r DU wedi gwella ac yn sicr ddim gwaeth, oherwydd ymdrech ar y cyd dros flynyddoedd i gefnogi pobl â sgiliau digidol sylfaenol. Dywedodd fod data arolwg cenedlaethol yn dangos gostyngiad o 15 y cant i 11 y cant o bobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Ond dim ond hyn a hyn y gall hyfforddiant sgiliau digidol ei wneud. Ar wahân i sgiliau, cost offer a diffyg cysylltedd, dywedodd Derek Walker wrth y Pwyllgor fod diffyg parodrwydd.⁶⁰ Dywedodd mai'r rhwystr mwyaf yn aml yw agwedd ynglŷn â bod eisiau mynd ar-lein, a chyda hyfforddiant sgiliau digidol byddent yn dechrau gyda'r hyn sydd o ddiddordeb i bobl, ac yn gweithio oddi yno.⁶¹

55. Datgelodd Fforwm Ymgynghorol Age Cymru, a sefydlwyd i ddarparu tystiolaeth i'r Adolygiad Mynediad at Arian Parod, y gwahaniaeth yn y ffordd y mae'n well gan rai pobl hŷn fancio: “Tydw i ddim yn ymddiried mewn technoleg. Mae pobl iau yn ymddiried ynddo yn llwyr ond alla i ddim”, ac “Mae'n well gan bobl hŷn sicciau ac arian parod na thaliadau electronig o hyd. Tydyn nhw ddim eisiau gwybod manylion cyfrif banc rhywun arall, gan eu bod yn ystyried hyn yn achos o dorri preifatrwydd. Mae bonion sicciau'n aml yn darparu cofnod gwell o wariant na chyfriflenni banc, oherwydd gall fod yn anodd nodi'r gwariant o'r data ynddyn nhw”.⁶² Darparodd Age Cymru dystiolaeth o'i waith i fynd i'r afael â

⁵⁶ Paragraff 295-297, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Mehefin 2019

⁵⁷ <https://www.npcuk.org/about>

⁵⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig

⁵⁹ Paragraff 289, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Mehefin 2019

⁶⁰ Paragraff 291, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Mehefin 2019

⁶¹ Paragraff 287, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Mehefin 2019

⁶² Tystiolaeth ysgrifenedig

sgamiau a cham-drin ariannol sy'n effeithio ar bobl hŷn, a chred y dylai'r gallu i dynnu arian ac adneuon (gan gynnwys sieciau) o'r holl gyfrifon banc cyfredol a sylfaenol a ddelir gyda chymdeithasau adeiladu a banciau'r stryd fawr drwy Swyddfa'r Post gael ei fandadu gan Lywodraeth y DU.

4. 2. Gwasanaethau bancio canghennau symudol

56. Mae nifer o gyn-fanciau'r stryd fawr wedi dilyn strategaeth i ddisodli canghennau brics a mortar â gwasanaethau cangen symudol. Mynegodd Uno'r Undeb bryder ynghylch digonolrwydd y rhain:

“Unite is clear that these mobile branches do not serve the communities well. These mobile services are in no way equipped to conduct the same banking functions as a local branch. Unite believes this approach can also the staff at significant risk of assault and robbery. Strict timetables have to be adhered to - the mobile banks will not stay to serve customers beyond their scheduled times. Staff have reported customer anger and frustration aimed at staff when faced with mobile banking trucks following the closure of their local branch.”

57. Nododd pedwar deg y cant o ymatebwyr i arolwg y Pwyllgor yr effeithiwyd arnynt yn negyddol gan gau banciau fod mynediad rheolaidd at fan symudol yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, nid ystyriwyd eu bod yn ateb digonol o ran argaeledd gwasanaethau, mynediad, a materion o ran preifatrwydd.

58. Nid oedd gan gyfranogwyr Llanfyllin, Llanwrtyd ac Ynys Môn fynediad at fan bancio symudol neu nid oeddent wedi defnyddio un. Mae cyfranogwyr o Lanfyllin wedi rhoi cynnig ar ymgyrchu am fynediad at gangen fancio symudol Natwest ond mae hyn wedi bod yn aflwyddiannus hyd yma. Roedd cyfranogwyr o Geredigion wedi defnyddio fan bancio symudol ond soniwyd bod y ciwiau'n aml yn hir a bod y faniau weithiau'n gorfod symud ymlaen cyn iddynt weld pawb. Er bod rhai grwpiau'n teimlo y byddai faniau bancio symudol yn well na dim, teimlai eraill nad oedd yn ddewis amgen digonol ar gyfer cangen banc oherwydd diffyg preifatrwydd a'r gwasanaethau y gall eu cynnig.

“Nid yw'r banciau symudol yn darparu'r un gwasanaethau h.y. swm cyfyngedig o arian y gallaf ei dynnu allan.”

“Mae'n rhaid i mi wneud holl fancio fy mam oedrannus arlein, gan gael gwared ar ei phreifatrwydd a'i hymreolaeth. Ni all sefyll mewn maes parcio oer ac aros mewn ciw am wasanaeth cyfyngedig iawn (ac yn fy mhrofiad i, anghwrtais) gan staff mewn fan.”

“Daw fan Natwest unwaith yr wythnos yn unig.”

Ymatebwyr i'r arolwg

59. Awgrymwyd gan ymatebwyr i'r arolwg y dylid cael fan bancio symudol ar ddydd Sadwrn er mwyn galluogi'r rhai sy'n gweithio yn ystod yr wythnos i'w ddefnyddio, ac y dylai canghennau bancio symudol “fod yn orfodol ym mhob tref lle caiff banc ei gau gydag amseroedd a lleoedd yn cael eu hanfon at bob un o'u cwsmeriaid yn yr ardal”.⁶³

60. Tynnodd y Pwyllgor sylw'r Bwrdd Safonau Benthycyca at annigonolrwydd y gwasanaethau bancio symudol a ddarperir i ardaloedd gwledig yn lle canghennau. Addawodd David Pickering o'r Bwrdd Safonau Benthycyca gael gwared ar hynny a dywedodd y byddai'n rhoi ystyriaeth bellach i ddigonolrwydd y cynnig symudol.⁶⁴

4. 3. Rhwydwaith Swyddfa'r Post

61. Swyddfa'r Post yw rhwydwaith manwerthu mwyaf y DU a'r gadwyn gwasanaethau ariannol fwyaf yn y DU. Mae ganddi fwy o ganghennau na holl brif fanciau'r DUgyda'i gilydd. Gyda thros 900 o ganghennau yng Nghymru, mae mewn sefyllfa unigryw i ymgymryd â rhywfaint o'r gwaith yn sgil cau canghennau banc. Amlygodd Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri y ffaith, fod nifer y canghennau banc yn y DU wedi gostwng 33 y cant ers 2010, tra bod nifer y swyddfeydd post wedi aros yn gyson ar y cyfan.⁶⁵

62. Nododd Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri fod cau banciau'n gyffredin iawn mewn ardaloedd gwledig a rhannau o'r wlad sydd â chyfran uchel o bobl hŷn a/neu dan anfantais economaidd, ond nid yw'n gyfyngedig i'r ardaloedd hynny.⁶⁶ Roedd yn awgrymu bod banciau'n troi cefn ar yr ardaloedd lle mae pobl yn dibynnu arnynt fwyaf, a bod y rhwydwaith swyddfeydd post mewn sefyllfa berffaith i fod y prif leoliad i wasanaethau bancio lle nad oes canghennau banciau ar gael.⁶⁷

63. Mae rhwydwaith Swyddfa'r Post wedi bod yn cynnig gwasanaethau bancio sylfaenol i gwsmeriaid o dan drefniadau bancio safonol am y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn ôl tystiolaeth ysgrifenedig gan Swyddfa'r Post, mae'r Cytundeb

⁶³ Ymatebydd i arolwg y Pwyllgor

⁶⁴ Paragraff 181, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 19 Mehefin 2019

⁶⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig

⁶⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig

⁶⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig

Fframwaith Bancio, a lansiwyd ym mis Ionawr 2017, yn galluogi 99 y cant o holl gwsmeriaid bancio'r DU sy'n ddefnyddwyr cyffredin, a 95 y cant o gwsmeriaid bancio sy'n fusnesau bach, i gael gafael ar wasanaethau bancio sylfaenol drwy bob cangen Swyddfa'r Post a gwasanaeth allgymorth. Fodd bynnag, mae ymchwil Which? yn awgrymu nad rhwydwaith Swyddfa'r Post yw'r ateb taclus y mae banciau'n ei honni.⁶⁸ Mae'n dweud ar hyn o bryd nad yw Swyddfa'r Post yn llenwi'r bwlch mae banc lleol yn ei adael pan gaiff ei symud o leoliad, ac ni ellir ei ystyried yn ddewis amgen yr un fath â'r ddarpariaeth flaenorol a fydd yn diwallu anghenion pawb yn y gymuned.⁶⁹ Mae Which? yn tynnu sylw at y ffaith, er y gall cwsmeriaid dynnu arian allan, gwirio eu balans a thalu arian parod a sieciau i mewn, mae angen iddynt ddefnyddio slip talu i mewn gan eu banc, ac yn aml mae angen diwrnod neu ddau yn ychwanegol er mwyn i adneuon a sieciau ymddangos ar eu balans. Ni all pobl drosglwyddo arian o'u cyfrif, na cheisio cyngor na gwneud ymholiadau am gynilion, cyfrifon cyfredol, cardiau credyd, morgeisi, na benthyciadau neu fuddsoddiadau personol.⁷⁰

64. Dywedodd Swyddfa'r Post wrth y Pwyllgor:

“Post Offices are at the heart of Welsh life. Over 93% of the population have a Post Office within a mile of where they live. People want a shop, a bank and a Post Office in their community. Increasingly, Post Offices enable all three.

For people without cars, or who don't have access to public transport, for those who don't do business online, and for small businesses serving or operating from rural communities, we are increasingly the only place where they can deposit and withdraw cash, pay bills, collect benefits, send parcels and transfer money around the world.”⁷¹

65. Heb os, mae gan rwydwaith Swyddfa'r Post rôl bwysig i'w chwarae, ond mae'n gyfyngedig yn yr hyn y gall ei wneud, rhywbeth yr oedd Gweinidogion yn ei gydnabod i'r Pwyllgor:

“That's self-evident, it seems to me—post offices can't replace banks. They can replace some of the services of banks in some circumstances, but they, generally, don't have a private place that you can talk to somebody. Most people are not going to want to discuss their private

⁶⁸ Is the last bank in your town under threat? Which? Money, Rhagfyr 2018

⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig

⁷⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig

⁷¹ Tystiolaeth ysgrifenedig

financial matters loudly over a post office counter. That's not how it is. But they can replace small cash services and deposit services, and general automated teller machine type services if there's not an ATM there, but it's not in any way a replacement for a full banking service, and that's the space in the market that we're talking about."⁷²

66. Roedd y rhan fwyaf o'r grwpiau y siaradodd y Pwyllgor â hwy hefyd wedi gweld cangen eu Swyddfa'r Post Lleol yn cau ac erbyn hyn roedd ganddynt ganghennau wedi'u lleoli y tu mewn i siopau yn eu lle. Er bod llawer o grwpiau'n canmol y staff a oedd yn gweithio yn Swyddfa'r Post, roedd ei safle, fel arfer yng nghefn siopau, yn arwain at nifer o broblemau o ran preifatrwydd a hygyrchedd. I lawer ag anabledd, o ran mynediad corfforol ac i bobl ag awtistiaeth er enghraifft, gall hefyd fod yn anodd mynd i amgylchedd newydd a phrysur.

67. Mynegodd Dr Valerie Billingham o Age Cymru bryderon ynghylch cau swyddfeydd post neu fygythiadau o gau, a dywedodd fod pobl hŷn hefyd yn poeni am golli mynediad at eu pensiynau drwy Swyddfa'r Post, gan dynnu sylw at gyfran yr "hen hŷn" sydd heb fynediad at gyfrif banc na'r ID sydd ei angen i agor un. Dywed fod cardiau pensiwn yn cael eu tynnu'n ôl, ac mae swyddfeydd post lleol yn dweud efallai na fydd yn ymarferol iddynt gynnig tynnu pensiwn heb y cerdyn pensiwn. Felly, mae pobl hŷn heb fynediad at fanc lleol bellach yn poeni'n fawr y gallent golli mynediad at gyfleusterau tynnu pensiwn yn swyddfa'r post hefyd, ac na allant gael gafael ar eu pensiwn drwy swyddfa'r post.⁷³

68. Cadarnhaodd Valentine Mulholland o'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau fod achosion o gau swyddfeydd post yn uwch yng Nghymru, a bod hyn yn cael effaith fawr ar gymunedau gwledig. Dywedodd, o ran cau swyddfeydd post, er bod hynny'n arafach o lawer, rhwng 2017 a 2018, gwelodd Cymru 2.7 y cant o'r canghennau'n cau, a oedd yn llawer mwy nag unrhyw ran arall o'r DU. Felly, cred fod hynny'n bryder penodol.⁷⁴

"Mae defnyddio Swyddfa'r Post yn iawn ond nid yw'n datrys y broblem o hyd o ran, os ydych chi'n perthyn i fanc maen nhw'n ddarparwr gwasanaeth, a dylen nhw ddarparu gwasanaeth i bawb mewn cymunedau. Maen nhw'n meddwl ei bod hi'n iawn iddyn nhw symud popeth i Swyddfa'r Post ond does gan bob man ddim Swyddfa'r Post. Rydyn ni'n lwcus iawn yma - mae'n rhan o fusnes arall." **Cyfranogwr, Llanwrtyd**

⁷² Paragraff 170, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 3 Gorffennaf 2019

⁷³ Paragraff 272, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Mehefin 2019

⁷⁴ Paragraff 276, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Mehefin 2019

“Rwy’n byw i lawr y ffordd ac felly rwy’n defnyddio Swyddfa’r Post yn Llanfechan sydd yno unwaith yr wythnos ac mae hynny’n iawn ond dydw i ddim yn defnyddio’r un yma oherwydd bod y ciw ar gyfer tiliau Spar y tu ôl imi. Ac ydych chi eisiau gwneud busnes gyda phobl yn sefyll y tu ôl ichi? Ddim mewn gwirionedd.” **Cyfranogwr, Llanfyllin**

“Caeodd swyddfa’r post yn y dref hefyd ac am 2 flynedd nid oedd dim byd. Yna agorwyd cownter yn siop Spar, a oedd yn llawer gwell na dim, OND ni fyddwn i’n hoffi defnyddio’r cownter ar gyfer bancio gan nad oes DIM preifatrwydd ac mae mor brysur yno y rhan fwyaf o’r amser, byddai’n brofiad cas i orfod defnyddio’r cownter gyda chiw’r siop ger eich ochr. Mae pawb yn cael eu gwasgu.” **Ymatebydd i’r arolwg**

“Mae talu arian i mewn drwy swyddfa’r post (arian parod) yn cymryd diwrnod gwaith ychwanegol i ddangos credydau.” **Ymatebydd i’r arolwg**

69. Heriodd Swyddfa’r Post Cyf a Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri rai o’r materion a godwyd ynghylch preifatrwydd, a diwallu anghenion cwsmeriaid sy’n agored i niwed. Dywedodd Greg Lewis o Swyddfa’r Post, mewn perthynas ag ymholiadau balans nad yw’r clerc yn gweld y balans. Dim ond ar y dderbynneb y mae’r balans wedi’i argraffu a chaiff ei rhoi i’r cwsmer yn wynebu i lawr, felly nid oes gan y clerc unrhyw wybodaeth am faint sydd yng nghyfrif y cwsmer hwnnw.⁷⁵ Ac o ran helpu cwsmeriaid ar incwm isel, dywedodd:

“I do stress, though, we cannot replicate what a bank does in its entirety, but we can certainly service the basic cash provision and needs, and, in terms of the vulnerable members of society, we can actually offer many benefits above an ATM. For instance, if you use our over-the-counter cash facility, you’re not constrained to taking £20 and £10 notes out, which you are with an ATM, unless it’s got £5 stock within it. You can actually have an exact amount that fits in with your budget and needs. Some customers—some students, for instance—may take out less than a tenner. So, we can offer that convenience, plus also talk a customer through the transaction, which they can’t do on an ATM.”⁷⁶

70. Amlygodd ymchwiliad diweddar gan Bwyllgor Strategaeth Busnes, Ynni a Diwydiannol Tŷ’r Cyffredin⁷⁷ heriau i gadernid rhwydwaith Swyddfa’r Post sy’n

⁷⁵ Paragraff 90, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 13 Mehefin 2019

⁷⁶ Paragraff 27, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 13 Mehefin 2019

⁷⁷ www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/commons-select/business-energy-industrial-strategy/inquiries/parliament-2017/post-office-network-17-19/

ymwneud â'r system fasnachfrait a thaliadau is-bostfeistri. Mae tystiolaeth i'r Pwyllgor hwn gan Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri yn awgrymu heb ragor o gymorth mae risg y gall canghennau unigol o fewn rhwydwaith swyddfeydd post ei chael hi'n anodd ymdopi â rhai o ganlyniadau cynnydd mewn trafodion bancio wrth i fanciau barhau i droi cefn ar y stryd fawr.⁷⁸

71. Awgryma'r Ffederasiwn Busnesau Bach fod gwasanaeth anghyson yn cael ei gynnig i fusnesau ar draws rhwydwaith Swyddfa'r Post a bod gwasanaethau bancio busnes a ddarperir mewn rhai canghennau a masnachfreintiau Swyddfa'r Post yn rhy gyfyngedig.⁷⁹ Mae'r Ffederasiwn hefyd yn honni bod rhai gwasanaethau, fel cyfleusterau arian parod a chlirio sieciau, fel pe baent yn cael eu prosesu'n arafach nag mewn canghennau banciau, pwynt a wnaed gan eraill hefyd.

72. Yn ôl y Ffederasiwn Busnesau Bach, wrth i ddyfodol y rhwydwaith symud i ffwrdd o swyddfeydd post gwasanaeth llawn i fasnachfreintiau, mae pryder ynghylch yr effaith ar fynediad busnesau bach. Mae'r diffyg mynediad hwn at wasanaethau o'r fath yn cael effaith uniongyrchol ar gwmnïau bach, yn enwedig y rhai y mae eu busnes yn dibynnu ar dwristiaeth.⁸⁰

73. Eglurodd Swyddfa'r Post ei chynlluniau i ehangu'r Cytundeb Fframwaith Bancio ymhellach i gynnwys undebau credyd. Dywedodd Greg Lewis:

“So, the Post Office is looking to work with as many credit union aggregators as possible, so the onward reach for the credit unions that they associate with expands. And we, by having a relationship with more than one aggregator as well—we're not favouring any particular aggregator that a credit union should join. So, we want to be in a position to say to credit unions, ‘Yes, if you go with any on this list of aggregators, that will open up the full network access for your customers.’⁸¹

74. Er bod y symudiad hwn i ehangu mynediad at wasanaethau yn cael ei groesawu, nid yw'n mynd i'r afael â'r holl broblemau sy'n gysylltiedig â defnyddio Swyddfa'r Post ar gyfer gwasanaethau bancio.

75. Pryder mawr hefyd yw'r diffyg sylweddol o ymwybyddiaeth y cyhoedd o wasanaethau bancio Swyddfa'r Post, a rhywfaint o amharodrwydd i ddefnyddio

⁷⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig

⁷⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig

⁸⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig

⁸¹ Paragraff 128, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 13 Mehefin 2019

Swyddfa'r Post ar gyfer bancio. Canfu Which? mai dim ond 55 y cant o oedolion oedd yn ymwybodol y gallent ddefnyddio Swyddfa'r Post ar gyfer bancio, a dywedodd 47 y cant eu bod yn annhebygol o drafferthu gwneud hynny yn y dyfodol.⁸² Canfu arolwg Aelodau Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri yn 2019 fod 55 y cant o is-bostfeistri yng Nghymru yn teimlo bod lleiafrif o bobl yn eu hardal leol yn ymwybodol o'r gwasanaethau bancio personol y maent yn eu cynnig, a themlai 61 y cant mai lleiafrif o fusnesau oedd yn ymwybodol o'u gwasanaethau bancio busnes.

76. Cydnabu Greg Lewis o Swyddfa'r Post Cyf y broblem drwy ddweud bod ymwybyddiaeth, er y gwnaed popeth o fewn eu gallu, yn dal i fod yn isel.⁸³ Mae hwn yn fater pwysig i fynd i'r afael ag ef o ystyried y rôl bwysig y mae rhwydwaith Swyddfa'r Post yn ei chwarae wrth lenwi rhai o'r bylchau mewn mynediad at fancio. Pan holwyd Greg Lewis a oedd unrhyw beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i gynorthwyo i wneud rhwydwaith Swyddfa'r Post yn fwy abl i lenwi'r bwlch a adawyd gan fanciau, dywedodd y byddai Swyddfa'r Post Cyf wrth ei bodd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r hyn y gellir ei wneud a'r hyn na ellir ei wneud".⁸⁴ Fodd bynnag, Llywodraeth y DU sy'n arwain ar y materion hyn, a gedwir yn ôl. Mae Llywodraeth y DU yn darparu cymhorthdal ar gyfer Rhwydwaith Swyddfa'r Post, ac ym mis Rhagfyr 2017 cyhoeddodd y byddai £370 miliwn yn cael ei ddarparu i gefnogi Rhwydwaith Swyddfa'r Post rhwng 2018 a 2021, y mae £160 miliwn ohono'n cael ei ddefnyddio i amddiffyn "y siop ddiwethaf yn y pentref".

77. Mae Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol Cymru yn cadw'r prif gyfrifoldeb dros fonitro materion Swyddfa'r Post a'r Post Brenhinol yng Nghymru, a dywed Llywodraeth Cymru ei bod yn cydnabod "eu gwerth cymdeithasol [swyddfeydd post] i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu⁸⁵ ac mae wedi darparu cyllid yn y gorffennol. Roedd Cronfa Datblygu Swyddfa'r Post a oedd yn gweithredu rhwng 2002 a 2005 wedi dyfarnu £4.2 miliwn, a chafodd Cronfa Arallgyfeirio Swyddfa'r Post ei hagor ym mis Ionawr 2009 a'i chau i geisiadau newydd ym mis Tachwedd 2013. Gofynnodd y Pwyllgor i Weinidogion Cymru pam fod y gefnogaeth hon wedi'i thynnu'n ôl a chafodd ateb gan Hannah Blythyn AC, y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol. Ym mis Gorffennaf 2014 roedd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ar y pryd a wedi nodi, gan fod cyllidebau'r sector cyhoeddus bellach

82 Tystiolaeth ysgrifenedig

83 Paragraff 110, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 13 Mehefin 2019

84 Paragraff 106, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 13 Mehefin 2019

85 Tystiolaeth ysgrifenedig, , llythyr gan y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol, 16 Gorffennaf 2019

yn gostwng fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru “ystyried ei blaenoriaethau’n ofalus”.⁸⁶ Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod y gronfa wedi’i chau am nifer o resymau, gan gynnwys ansawdd y ceisiadau yn gostwng, roedd ceisiadau’n dod yn gynyddol o Swyddfeydd Post a oedd eisoes wedi elwa o’r Gronfa, a Llywodraeth y DU wedi cyflwyno ei hagenda foderneiddio a oedd yn cynnwys arian ar gyfer gwella cyfalaf swyddfeydd post ledled y DU. Yn dilyn hynny, roedd Swyddfa’r Post Cyf wedi cyflwyno cais byr i Lywodraeth Cymru i barhau â’r Gronfa Arallgyfeirio, ond “ni wnaeth y cais hwn amlinellu sut y byddai parhau i ariannu swyddfeydd post yn helpu i drechu tlodi. Felly, ni ystyriwyd ei fod yn flaenoriaeth ar gyfer cyllid ac fe’i gwrthodwyd yn ffurfiol ym mis Medi 2014”.⁸⁷

78. Mae Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri yn credu bod yn rhaid i Swyddfa’r Post Cyf weithio gyda Llywodraeth y DU ar strategaeth genedlaethol i godi ymwybyddiaeth a rhoi’r offer a’r adnoddau i is-bostfeistri hyrwyddo gwasanaethau yn eu hardal leol. Mae wedi galw ar Swyddfa’r Post Cyf i weithio gyda Llywodraeth y DU i godi ymwybyddiaeth, a hoffai weld ymgyrch ar lefel genedlaethol (teledu, radio, cyfryngau print ac ati), ac adnoddau’n cael eu dyrannu i alluogi swyddfeydd post i gyflawni eu hymgyrch eu hunain ar lefel leol.⁸⁸

79. Mae’r Pwyllgor yn cydnabod bod gwasanaethau post a swyddfeydd post yn fater a gedwir yn ôl a bod cyfyngiadau cyllido, ond hoffai weld Llywodraeth Cymru yn mynd ati i archwilio pob llwybr i amddiffyn a chefnogi rôl Swyddfa’r Post wrth ddarparu gwasanaethau bancio amgen ac i godi ymwybyddiaeth o hynny yng nghymunedau Cymru.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei chefnogaeth i Rwydwaith Swyddfa’r Post ac archwilio gyda Llywodraeth y DU a Swyddfa’r Post Cyf sut i gefnogi ymdrechion i ehangu’r gwasanaethau arian mewn ac allan a’r gwasanaethau eraill y gall eu cynnig, ac i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o’i gwasanaethau bancio ledled Cymru.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru fapio’r bylchau mewn gwasanaethau bancio yn gyffredinol - mynediad at fanciau, Swyddfeydd Post, peiriannau ATM rhad ac am ddim i’w defnyddio a chysylltedd ar gyfer bancio digidol. Yn seiliedig ar well dealltwriaeth o’r bylchau, dylai Llywodraeth Cymru ystyried beth arall y gall ei wneud i fynd i’r afael â’r effeithiau lles sy’n gysylltiedig â llai o fynediad

⁸⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, llythyr gan y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol, 16 Gorffennaf 2019

⁸⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, llythyr gan y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol, 16 Gorffennaf 2019

⁸⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig

mewn cymunedau gwledig, e.e. buddsoddi mewn opsiynau trafndiaeth, dulliau partneriaeth, ymyriadau cynllunio a phrosiectau cysylltedd i wella mynediad yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt fwyaf.

5. Cynhwysiant digidol a chysylltedd

80. Mae diffyg cysylltedd yn broblem sylfaenol i bobl sy'n ceisio defnyddio gwasanaethau bancio yng Nghymru. Cyfeiriodd Which? at adroddiad gan Ofcom ar gysylltedd digidol yn 2018 i nodi maint y broblem, sef na all tua 3 y cant o adeiladau yng Nghymru gael mynediad at wasanaeth band eang sefydlog boddhaol. At hynny, nid oes gan 10 y cant o dir Cymru ddarpariaeth 4G da gan unrhyw weithredwr. Mae hyn wedi gwella o 22 y cant flwyddyn yn ôl, ond mae effeithiau gwael ar ardaloedd gwledig o hyd. Nid oes gan 31 y cant o gartrefi a busnesau yng Nghymru ddarpariaeth 4G dda dan do gan yr holl weithredwyr. Mae'r cysylltiad band eang a 4G annibynadwy hwn yn golygu na fydd llawer o bobl ar draws Cymru yn gallu gwneud taliadau digidol, na defnyddio bancio ar-lein.⁸⁹

81. Honnodd Which? fod y symudiad cyflym tuag at ddibynnu ar daliadau digidol ac electronig yn unig yn digwydd heb asesu a chraffu priodol, sy'n golygu bod rhai pobl mewn perygl o gael eu heithrio, bod yn llai annibynnol ac yn ei chael hi'n anodd talu am wasanaethau sylfaenol.⁹⁰

“Mae bancio ar y we bron yn amhosibl oherwydd prinder signal ffôn symudol.”

“Mae'n rhwystredig gan nad oes modd gwneud popeth ar-lein. Gallaf edrych ar fy malans ar-lein, ond ni allaf wneud popeth chwaith, felly nid yw'n ddefnyddiol symud popeth yno. Mae cyflymder y we a signal ffôn yn fy nghwm i yn ofnadwy hefyd.”

Ymatebwyr i'r arolwg

82. Tynnodd Which? sylw hefyd at y ffaith bod datblygiadau mewn technoleg a mesurau seiberddiogelwch yn golygu bod pethau'n gwaethygu i'r rhai sydd â chysylltedd gwael. Yng Nghymru nid oes gan 5 y cant o'r boblogaeth 2G. Mae pobl sydd â signal ffôn isel yn cael eu heithrio wrth i fanciau ddechrau gofyn i gwsmeriaid ddilysu taliadau cerdyn ar-lein gan ddefnyddio eu ffôn symudol, dan ofynion llym o ran dilysu cwsmer. Bydd banciau'n anfon cod pas un-amser - fel arfer mewn neges destun - y mae'n rhaid ei nodi wrth dalu ar-lein i awdurdodi'r taliad. Fodd bynnag, rydym yn gwybod y bydd rhai pobl yn ei chael hi'n anodd

⁸⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig

⁹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig

derbyn y negeseuon testun hyn ac yn methu â pharhau i wneud eu taliad.⁹¹ Mae'r broblem hon yn effeithio ar sawl rhan o Gymru:

Kathy, Sir Benfro “Rwy’n ddefnyddiwr cadair olwyn ac yn byw mewn rhan wledig iawn o Gymru lle nad oes signal ffôn symudol o gwbl. Rwy’n defnyddio’r rhyngwrwd ar gyfer siopa, talu biliau a bancio - mae’n daith gyfan o ddwy awr mewn car i ymweld â’r gangen agosaf. Yn ddiweddar, cysylltodd Halifax â mi gyda holiadur gan ei fod hefyd yn ystyried newid diogelwch ar gyfer sefydlu taliadau newydd i system ffôn symudol (ar hyn o bryd maent yn defnyddio fy llinell dir ar gyfer hyn). Eglurais y byddai’n rhaid imi gau fy nghyfrif gydag ef, y cyfrif rwyf wedi’i gael ers 30 mlynedd, os bydd yn cyflwyno hyn.”

Trevor, Aberconwy: “Mae pob banc wedi bod ar gau ers dros flwyddyn rwy’n meddwl. Gwn fod banciau eisiau inni newid i fancio ar-lein ond mae rhai ohonynt yn ei gwneud yn anodd iawn i bobl sy’n byw mewn ardaloedd gwledig. Mae Santander yn anfon cyfrineiriau un-amser drwy neges destun, pan fyddwch chi am dalu bil ar-lein. Nid oes gennym signal symudol, ac eto mae’n gwrthod ei anfon drwy e-bost neu ffôn llinell dir.”

RG, Gorllewin Clwyd: “Mae’n anodd iawn nawr bod y gangen agosaf dros 30 milltir i ffwrdd. Anhawster ychwanegol yw na alla i ddefnyddio apiau banc; does dim signal symudol yn yr ardal. Rhaid imi gofio defnyddio’r peiriant arian parod wrth fynd i siopa, oherwydd mae’r peiriant ATM agosaf 16 milltir i ffwrdd. Mae fy nghanen banc agosaf 30.1 milltir i ffwrdd. Rwy’n 73 oed a tydw i ddim yn mwynhau gyrru mor bell.”

Which?

83. Mewn tystiolaeth lafar, amlygodd Thomas Docherty o Which? y broblem hon o ran rhannau gwledig Cymru dan anfantais ddwbl:

“in Brecon and Radnorshire, which has had more bank branch closures than anywhere else in Wales—it’s lost 14 branches in that period I’ve outlined—40 per cent [correction: 45 per cent] of households could not access the current USO, the universal service obligation, minimum speed for broadband. So, clearly, there is a double whammy there of loss of bank branches and not being able to use alternative forms of banking service.”

⁹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig

84. Ni fydd unrhyw faint o addysg ariannol na hyfforddiant digidol yn helpu os na chaiff problemau o ran cysylltedd eu datrys. Pan ofynnodd y Pwyllgor i'r rhai yr effeithir arnynt yn negyddol gan fanciau'n cau beth y gellid ei wneud i helpu, dywedodd 26 y cant o'r rhai a arolygwyd "gwell WiFi a/neu gysylltedd rhyngwyd". Dywedodd Which? fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn cefnogi darpariaeth band eang a symudol da ledled Cymru i sicrhau bod gan ddefnyddwyr y dewis i ddefnyddio taliadau a gwasanaethau bancio digidol.⁹² Fel y mae'r Pwyllgor wedi'i amlygu o'r blaen yn ei adroddiad "Diweddariad ar y Cynllun Gweithredu Ffonau Symudol"⁹³, mae datrys problemau o ran cysylltedd yn hanfodol i gymunedau Cymru ac economi Cymru.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fynd ar drywydd gweithredu mesurau i ddarparu cysylltedd digonol ar gyfer bancio digidol ledled Cymru gyfan gyda Llywodraeth y DU ac Ofcom, a hynny ar frys.

⁹² Tystiolaeth ysgrifenedig

⁹³ <https://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/cr-ld12069/cr-ld12069-w.pdf>

6. Gallu a chynhwysiant ariannol

85. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gref am effaith cau canghennau ar bobl hŷn a phobl anabl yn benodol, a phroblemau o ran allgáu digidol ar gyfer y rhai sydd eisoes dan anfantais. Mae data a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer mis Mehefin 2019⁹⁴ yn dangos bod 22 y cant o bobl dros 50 oed wedi'u hallgáu'n ddigidol (nid defnyddwyr rheolaidd o'r rhyngwrwd), gyda'r ffigur yn codi i 51 y cant ar gyfer y rhai dros 75 oed. Y ffigur ar gyfer pobl anabl yw 22 y cant, ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol 21 y cant, ac nid yw 6 y cant o bobl ddi-waith yn ddefnyddwyr rheolaidd o'r rhyngwrwd. Cartrefi pensynwr sengl sydd leiaf tebygol o gael unrhyw fynediad i'r rhyngwrwd (dim ond 55 y cant). Dim ond 75 y cant o breswylwyr tai cymdeithasol sydd â mynediad i'r rhyngwrwd o'i gymharu ag 89 y cant o berchnogion preswyl a 90 y cant o'r rheini yn y sector rhentu preifat.

86. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r rhwystrau i fynediad ar-lein fel cymhelliant, diogelwch ar-lein, cost ac offer, ac yn dweud bod annog mwy o ddinasyddion a sefydliadau i fabwysiadu technolegau digidol yn parhau i fod yn her enfawr. Ategwyd hyn gan gyfranogwyr yr arolwg a'r grwpiau ffocws, gyda diffyg ymddiriedaeth mewn bancio ar-lein yn rhwystr mawr:

“Pan rydych chi'n clywed am yr holl hacio 'ma ac yn y blaen, nid yw'n werth chweil. Dydw i ddim yn mynd i gymryd y risg.” **Cyfranogwr, Llanwrtyd**

“Alla i ddim credu beth sydd wedi bod yn digwydd yn ddiweddar. Rydyn ni wedi bod yn cael y llythyrau hyn gan HSBC ac mae'r cyfan yn ymwneud â diogelwch - ac maen nhw'n dweud wrthyn ni na ddylen ni roi manylion dros y ffôn, ond maen nhw am ichi ffonio. Rwy'n credu bod gennym ddyddiad erbyn hyn lle maen nhw'n mynd i ffonio fy ngŵr a rhaid ichi roi cyfrinair... ac imi mae hynny braidd yn frawychus.” **Cyfranogwr, Llanfyllin**

“Dwi ddim yn hoffi defnyddio...dwi am fod yn hen ffaswn... dydw i ddim yn hoffi talu ar-lein... rydw i ar y cyfrifiadur, rydw i wedi gwneud llawer ar y cyfrifiadur ar hyd fy oes - ond dydw i ddim yn gwneud fy mancio ar y cyfrifiadur oherwydd roeddwn i'n gwrando ar raglen y diwrnod o'r blaen ac mae un banc wedi colli llawer o arian nawr drwy sgamiau fel nad ydw i'n defnyddio unrhyw beth. Dwi ddim yn talu am ddim byd ar-lein.” **Cyfranogwr, Llanfyllin**

⁹⁴ Ffigurau diwygiedig yn seiliedig ar Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2018-19 - Mehefin 2019

“Rydyn ni’n greaduriaid o arfer. Rwy’n teimlo’n ddiogel yn y banc. Rwy’n ymdrin â’r banc, rwy’n gwybod beth sy’n digwydd a dyna ni.” **Cyfranogwr, Llanfyllin**

“Rwy’n casáu gorfod defnyddio bancio digidol. Nid wyf yn ymddiried ynddo. Dwi byth yn cofio fy nghyfrinair/cod ac atebion i gwestiynau arbennig. Mae’n llawer anoddach datrys problemau heb berson. Mae’n rhaid i mi fancio ar ran fy nghymydog oedrannus gan nad yw erioed wedi bod yn berchen ar ffôn symudol na chyfrifiadur.” **Ymatebydd i’r arolwg**

87. Roedd y Gwasanaeth Arian a Phensiynau ac Age Cymru ymhlith y rhai a ddywedodd fod effaith cau banciau yn llawer mwy ar grwpiau sy’n agored i niwed. Dywedodd Age Cymru ei fod yn gwneud pobl hŷn yn fwy agored i gam-drin ariannol:

“more people are keeping cash in their homes, due to the lack of a local bank, and about 20 per cent of people who are aged over 65 are using other people to withdraw cash for them. Now, that could be due to several different reasons, but lack of access to a bank is one of the big reasons. And, of course, we’re concerned that this decreases their independence and increases risk of financial abuse if you’re relying on someone else to take your bank card, know your PIN number and take money out of your account.”

88. Dywedodd Dr Valerie Billingham o Age Cymru na roddwyd llawer o ystyriaeth i anghenion pobl hŷn, yn enwedig mewn cymunedau gwledig, ac y gallai’r sector bancio wneud mwy o ran nodi cwsmeriaid sy’n agored i niwed. Wrth gwrs, mae cwmnïau cyfleustodau wedi gwneud llawer o waith ar hyn, ac nid yw’n hysbys a yw hynny wedi trosglwyddo i’r sector bancio ai peidio, ond gallai fod yn werth edrych arno.⁹⁵

89. Mae gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau Strategaeth Galluogrwydd Ariannol i Gymru sydd wedi cael ei hymgorffori yn Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru. Mae’r strategaeth hon yn amlinellu’r ymyraethau a nodwyd ac a gyflawnwyd mewn partneriaeth â rhanddeiliaid ac ymarferwyr ledled Cymru i wella gallu ariannol poblogaeth Cymru.

90. Cred y Gwasanaeth Arian a Phensiynau fod gallu cael mynediad at wasanaethau bancio ac ariannol priodol yn allweddol i allu ariannol, ac mae’n arbennig o bwysig mewn ardaloedd gwledig lle gallai mynediad at seilwaith

⁹⁵ Paragraff 266, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Mehefin 2019

bancio corfforol fod yn anodd ac yn gostus o ran amser ac arian, a lle gall gwasanaethau bancio digidol gael eu rhwystro gan fand eang gwael.⁹⁶

91. Mae Arolwg Galluogrwydd Ariannol y DU ar gyfer 2018 y Gwasanaeth Arian a Phensiynau yn dangos bod lefelau galluogrwydd ariannol ledled y DU yn parhau i fod yn ystyfnig o isel, gyda llawer o fesurau yn sylweddol is yng Nghymru. Mae mwy o bobl â llai na £100 mewn cynilion a buddsoddiadau (27 y cant yng Nghymru o'i gymharu â 22 y cant ar gyfartaledd yn y DU), mwy o bobl sy'n teimlo na allant bennu beth sy'n digwydd i'w bywydau o ran arian (67 y cant o'i gymharu â 63 y cant ar gyfartaledd yn y DU) a llai sy'n nodi bod ganddynt nodau ariannol am y pum mlynedd nesaf (48 y cant o'i gymharu â 53 y cant). Awgryma'r Gwasanaeth y dylid gwneud pob ymdrech i leihau'r bwch hwn, ac y dylid deall ac osgoi unrhyw effaith negyddol bosibl ar alluogrwydd ariannol.

92. Dywed Undeb Credyd Cambrian fod colli gwasanaethau cangen yn anghyfleustra i lawer o bobl, ond bod y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ariannol yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan ganghennau'n cau a bod allgáu ariannol yn cael ei gynyddu. Darparodd yr Undeb yr enghreifftiau a ganlyn:

- Y rhai sydd, o ddewis neu o angenrheidrwydd, yn byw "bywyd arian parod". Mae hyn oherwydd bod cau canghennau yn aml yn arwain at golli gwasanaethau arian parod (e.e. peiriannau ATM). Yn y DU, amcangyfrifir bod 1.2 miliwn o bobl heb gyfrif banc.
- Y rhai sy'n cael trafferth gyda thechnoleg neu sydd angen wyneb cyfeillgar i'w harwain drwy brosesau cymhleth yn aml i gael mynediad at wasanaethau ariannol hanfodol. Mae eisoes yn amlwg mai blaenoriaeth staff banciau yn y canghennau sy'n weddill yw helpu cwsmeriaid i ddefnyddio'r gwasanaethau awtomataidd sydd ar gael yn hytrach na thrin arian parod eu hunain. Mae hyn yn dystiolaeth glir o angen i gefnogi pobl, angen na ellir ei ddiwallu mewn mannau heb gangen.
- Mae pobl heb gyfrifon banc sy'n gorfod dibynnu ar gardiau rhagdaledig eisoes yn gorfod talu ffi i roddwr y cerdyn er mwyn defnyddio peiriant ATM. Mae cau ATM di-dâl yn aml yn cyd-fynd â chau canghennau. Mae hyn yn ergyd ddwbl i'r bobl hyn gan y byddant yn gorfod talu dwy ffi o bosibl cyn cael eu harian.

93. Dywedodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol fod Llywodraeth Cymru yn awyddus i weithio gyda'r Grŵp JACS i fynd i'r afael â materion o ran allgáu:

⁹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig

“we’re very keen on working with any agency that allows us to make sure that we don’t have cash excluded as well as digitally or financially excluded people or sets of people across Wales. Obviously, there’s an issue with an ageing population that doesn’t have some of the digital and financial inclusion skills, but, actually, there’s a huge issue for anyone with any kind of sensory impairment, so if you’ve got a visual or hearing impairment, some of the apps are really hard to use. There are whole issues around other people who are already disadvantaged in society, and we need to level off that playing field for them and not make them jump over higher hurdles.”⁹⁷

6. 1. Gallu ariannol cenedlaethau’r dyfodol

94. Mae’r Gwasanaeth Arian a Phensiynau yn arbennig o bryderus bod mynediad mwy cyfyngedig at ganghennau banc yn effeithio ar allu ariannol yn y dyfodol - mae gallu ariannol plant a phobl ifanc yn cael ei wella drwy weld eu rhieni’n defnyddio arian parod ac mae llawer o bobl ifanc naill ai heb fanc neu heb hyder ynghylch defnyddio eu cyfrif banc, ac mae hyn yn arbennig o wir os nad yw wedi’i fodelu gan rieni.⁹⁸ Cyfeiriodd tystiolaeth Prifysgol Bangor hefyd at bryderon yn y bylchau cyngor ariannol a lefelau isel o lythrennedd ariannol ledled Cymru, gan ychwanegu bod llythrennedd ariannol a hyder defnyddwyr wrth newid darparwr bancio ledled Ewrop yn is mewn rhanbarthau gwledig, mwy difreintiedig a llai addysgedig.⁹⁹

95. Dywedodd Cymdeithas Adeiladu’r Principality wrth y Pwyllgor am ei chyfraniad at lythrennedd ariannol mewn ysgolion yng Nghyfnod Allweddol 2, a’i bod hefyd yn ceisio pontio’r bwlch wrth gyrraedd pobl ifanc â phwysigrwydd cynilo - dywedodd fod pobl yn hoffi’r “Passbook” a’r ddisgyblaeth o ddod i mewn i gangen i adneuo arian, ac yn hoffi gorfod gwneud yr ymdrech ychwanegol honno i dynnu o’u cynilion. Mae’r Principality hefyd yn cyflwyno cynnyrch newydd sy’n cysylltu cynilion rhieni a phlant ac yn eu hannog i gynilo mwy.

96. Ymdrinnir ag addysg ariannol yn y cwricwlwm drafft newydd ar gyfer Cymru¹⁰⁰, gyda “deilliannau cyflawniad” yn benodol o dan y maes “Dysgu a Phrofiad” Mathemateg a Rhifedd, ond mae hefyd yn rhan o’r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles. Disgwylir i blant un ar ddeg oed ddangos dealltwriaeth o incwm a gwariant, cyfrifo elw a cholled, a chreu a gwerthuso cyllidebau ar gyfer

⁹⁷ Paragraff 34, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 3 Corffennaf 2019

⁹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig

⁹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig

¹⁰⁰ <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022/mathemateg-a-rhifedd/>

gweithgareddau a digwyddiadau. Erbyn 14 oed dylent allu datrys problemau sy'n cynnwys llog syml, llog cyfansawdd a dibrisiant, cyfrifo biliau a chyllidebau sy'n cynnwys trethiant sylfaenol ar nwyddau a gwasanaethau, a chyfiawnhau dewisiadau ar sail gwerth am arian, lles personol ac effaith fyd-eang. Erbyn 16 oed dylent hefyd ddeall cyfraddau cyfwerth blynyddol a chyfraddau canrannol blynyddol a sut i ddatblygu modelau i werthuso a chymharu cynhyrchion ariannol, ynghyd â dealltwriaeth ynghylch treth incwm a goblygiadau trethiant.

97. Mae'r cwricwlwm hefyd yn canolbwyntio ar fyfyrwyr sydd â phrofiad ariannol, gan gynnwys fel defnyddwyr beirniadol, ac yn bwysig o dan y maes iechyd a lles mae ffocws ar reoli arian personol a deall dylanwad amgylchiadau ariannol a phenderfyniadau ar iechyd meddwl a llesiant emosiynol. Fodd bynnag, ni fydd yr elfennau cwricwlwm newydd hyn yn dechrau cael eu cyflwyno i ysgolion cynradd Cymru tan fis Medi 2022, a byddant yn cymryd rhai blynyddoedd i'w sefydlu.

98. Disgrifiodd Lee Phillips o'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau ei waith agos gyda Llywodraeth Cymru i wreiddio addysg ariannol yng nghwricwlwm newydd ysgolion a'i hyrwyddo mewn ysgolion, gan nodi bod adborth wedi datgan nad yw hyder athrawon yn ei ddysgu mor gryf ag y gallai fod ac felly roeddent yn edrych ar sut i ariannu rhywfaint o ddysgu proffesiynol er mwyn i athrawon yng Nghymru adeiladu eu gwaith addysg ariannol.¹⁰¹

Argymhelliad 10. Dylai cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhwysiant digidol flaenoriaethu a) cynnal cefnogaeth ar gyfer hyfforddiant sgiliau digidol sy'n bodoli eisoes, b) ymgynghori â rhanddeiliaid ar sut i fynd i'r afael ymhellach â'r rhwystrau i bobl hŷn a phobl sy'n agored i niwed gael mynediad diogel at fancio ar-lein, ac c) darparu cymorth ychwanegol i athrawon ddarparu addysg ariannol o fewn y cwricwlwm ysgolion.

¹⁰¹ Paragraff 303, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Mehefin 2019

7. Yr effaith ar fusnes ac economi Cymru

99. Dywedodd Banc Cambria fod tystiolaeth yn awgrymu bod cysylltedd rhyngrwyd gwael ac annibynadwy mewn ardaloedd sy'n cael eu heffeithio gan gau canghennau banc yn gwaethygu'r anhawster i fusnesau bach gael gafael ar fancio a bod gweithgareddau fel prosesu taliadau biliau neu gofrestru ar gyfer mae gwasanaeth yn aml yn cael eu cyfaddawdu o ganlyniad i hyn.¹⁰²

100. Awgryma'r Ffederasiwn Busnesau Bach fod ein natur wledig yn debygol o ddyblu'r effaith, oherwydd yn wahanol i sawl rhan arall o'r DU, mae ein darpariaeth symudol a band eang yn tueddu i fod o safon is, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, sy'n golygu nad oes fawr o ddewis yn lle bancio yn y gangen.¹⁰³

101. Mae gwaith ymchwil yn dangos bod diffyg mynediad at wasanaethau bancio yn effeithio'n andwyol ar fynediad at gredyd ar gyfer busnesau bach a chanolig, y mae gan Gymru gyfran uchel iawn ohonynt. Felly mae economi Cymru yn cael ei heffeithio'n negyddol gan golli canghennau banc. Canfu academyddion yn Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd ac Adran Gyllid Prifysgol Birmingham fod busnesau bach a chanolig sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd â dwysedd cangen uwch a chyda changhennau sydd â phellter byrrach o'u pencadlys banc, yn wynebu cyfyngiadau credyd is ar adegau o straen ariannol. Yna mae canoli penderfyniadau benthyca corfforaethol bancio wedi cael effaith niweidiol ar argaeledd credyd banc mewn ardaloedd sydd bellaf o bencadlys y banc.¹⁰⁴

102. Mae colli gwybodaeth leol sy'n gysylltiedig â chau canghennau ffisegol, er enghraifft colli perthnasoedd sy'n caniatáu i reolwyr banciau gefnogi ffermwyr a busnesau lleol yn briodol, hefyd yn cael effaith niweidiol ar economi Cymru. Dywedodd 78 y cant o gwsmeriaid bancio busnes a ymatebodd i arolwg y Pwyllgor fod cau banciau lleol wedi cael effaith ar eu busnes, gyda 56 y cant yn dweud bod ganddynt fynediad cyfyngedig at gymorth a chynghor busnes.

“What they don't tell you is that it takes 1 week for cheques paid through the Post Office to be cleared funds. This has had an impact on the farm account and direct debits have been returned by the bank because of “uncleared funds”...We have gone backwards needing a week to clear cheques, it used to be 3 working days in the branch banking network. The local business account manager would not have returned these items unpaid because they knew us,

¹⁰² Tystiolaeth ysgrifenedig

¹⁰³ Tystiolaeth ysgrifenedig

¹⁰⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig

the account and the local business networks. Life is tough enough for small family farms struggling to survive in the current economic climate.

“However it is not just the counter service that is causing huge problems. Our Farm Account Business Manager is in Glasgow and you ring up and it is pot luck who you get to speak to. There is no continuity or personal service. Decision-making is escalated up a decision tree and a simple request can take days to be approved. Template letters are churned out and leaflets sent out at huge cost and little purpose. You ring them up and spend 20 minutes in a queue to be told incessantly that they are experiencing a spike in demand and either hold or call back later or use the website. This is code for we have not got enough staff to cope with the telephone demand now that we have closed down most of our branches.

“What does a manager in Glasgow know about farming in rural West Wales? Not only that but can they meet Welsh language demands?”

Unigolyn B

103. Dywedodd 82 y cant o gwsmeriaid busnes a ymatebodd i arolwg y Pwyllgor fod cau banciau wedi ei gwneud yn fwy anodd iddynt adneuo enillion. Ymhlith y problemau eraill roedd mynediad at arian mân a thynnu arian allan, ac roedd perchnogion busnes yn anhapus gyda'r gwasanaethau amgen a gynigir gan Swyddfa'r Post a faniau bancio symudol. Ni all busnesau bach fforddio gorfod cau'n gynnar i adneuo enillion. Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach wedi clywed pryderon niferus gan aelodau'r Ffederasiwn sy'n gorfod gyrru pellteroedd sylweddol - mewn rhai achosion, teithiau yno ac yn ôl o hyd at 70 milltir i adneuo arian parod eu busnes.¹⁰⁵ Roedd tystiolaeth gan Ganolfan Cydweithredol Cymru yn cefnogi hyn. Dywedodd Derek Walker ei fod yn clywed straeon am fusnesau'n cau amser cinio ar ddydd Gwener oherwydd bod angen iddynt gyrraedd y banc, oherwydd ei fod yn rhy bell i ffwrdd. Felly, dyna wasanaeth a busnes nad ydynt yn gweithredu am hanner diwrnod yr wythnos.¹⁰⁶

“... ni allwch gau siop mewn busnes bach i yrru 15 munud i'r lleoliad banc symudol i ganfod bod gormod o bobl yn ciwio a'ch bod yn cael eich troi i ffwrdd.”

Ymatebydd i'r arolwg

¹⁰⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig

¹⁰⁶ Paragraff 283, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Mehefin 2019

104. Yn flaenorol, mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach wedi cyhoeddi ymchwil i effaith cau banciau ar fusnesau¹⁰⁷ ac mae'n tynnu sylw at y ffaith bod ymchwil bellach gan y safle cymharu prisiau teg Choose, wedi'i gynnwys yn un o bapurau briffio gwasanaeth ymchwil Tŷ'r Cyffredin¹⁰⁸, yn dangos bod effaith fwyaf cau banciau yn yr ardaloedd sydd fwyaf difreintiedig yn economaidd yn y DU, gan gynnwys Cymru. Ymddengys eu bod wedi'u crynhoi mewn ardaloedd tlotach sy'n llai proffidiol i'r banciau mawr, gan fradychu rhesymeg a fydd, yn anffodus, yn ddefnyddiol wrth ragweld ble y gall banciau fod yn cau yn y dyfodol.¹⁰⁹ Daw'r Ffederasiwn i'r casgliad a ganlyn:

“it is therefore clear that Wales is likely to be one of the worst hit areas of the UK in terms of bank branch closures. Indeed, our rurality is likely to provide a doubling of the impact because as opposed to many other parts of the UK, our mobile and broadband coverage tends to be poorer, particularly in rural areas, meaning there is little alternative to branch banking.”¹¹⁰

105. Yn ogystal â'r effaith ar weithrediad a phroffidioldeb o ddydd i ddydd busnesau bach, mae gwaith ymchwil hefyd wedi dangos effaith negyddol sylweddol ar fenthycia banciau sy'n effeithio ar dwf busnesau bach. Mae adroddiad gan Move your Money, o'r enw “Abandoned Communities”¹¹¹, yn nodi drwy fapio canghennau banc sy'n cau yn erbyn data benthycia cod post Cymdeithas Bancwyr Prydain, dangosir fod cau canghennau banc yn lleihau twf benthycia busnesau bach a chanolig”.

106. Mae'r effaith economaidd ar fusnesau annibynnol mewn trefi llai, gwledig yn aml, pan fydd banciau'n cau yn sylweddol, wrth i bobl deithio i drefi mwy gyda banciau a defnyddio'r archfarchnadoedd sydd wedi'u lleoli yno yn lle eu siopau lleol.

“Mae gorfod ymweld â thref arall i fynd i'r gangen banc agosaf neu fynd i'r archfarchnad parc adwerthu i ddefnyddio peiriannau twll yn y wal am ddim hefyd yn cael effaith ar economïau lleol gan y bydd pobl yn aml yn cyfuno eu taith â siopa. Mae hwn yn arian fyddai fel arall wedi cael ei wario yn y siopau

¹⁰⁷ Locked Out: The Impact of Bank Branch Closures on Small Businesses

¹⁰⁸ <https://researchbriefings.parliament.uk/ResearchBriefing/Summary/SN00385#fullreport>

¹⁰⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig

¹¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig

¹¹¹

https://gallery.mailchimp.com/c9b157c9d89ca0bdb156c5128/files/Abandoned_Communities_V21.pdf

lleol, sy'n effeithio ymhellach ar y stryd fawr a'r gymuned leol." **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

"Local banks closures in rural towns make a huge impact on small businesses, as I have seen, customer's need to go to a bank and they go to the nearest town with a bank, that town often has a Supermarket, so the customer immediately uses the supermarket for convenience whilst they are visiting the bank. So as a small business that is another customer lost to a big corporation." **Unigolyn D**

107. Mae tystiolaeth hefyd o effaith ar y trydydd sector a'r rhai sy'n cefnogi elusennau. Cwynodd sawl ymatebydd ei bod yn anodd cael newid, talu rhoddion neu weithredu cyfrifon elusennol, o broblemau gyda banciau yn derbyn sieciau i'r amser teithio sy'n gysylltiedig ag adneuo rhoddion a gorfod cadw arian parod yn hwy. Gan y dibynnir fwyfwy ar y trydydd sector i ddarparu gwasanaethau hanfodol mewn cymunedau, mae'r rhwystrau hyn i gefnogaeth i elusennau yn bryder mawr.

"Cyfrif elusen felly ni allwch ddefnyddio peiriannau ATM neu fancio digidol gan ei gwneud yn amhosibl tynnu arian allan, mae'n rhaid i ni ddal mwy o arian yn ein cartref ac nid yw hynny'n ddiogel."

"Fel trysorydd elusen fach, ni allaf dalu i'r banc ddarnau arian, ac ni allaf wneud trosglwyddiadau rhyngwladol heb yrru 40 munud."

"Rwy'n gweithio i elusen, ac mae gorfod teithio ymhellach ar gyfer bancio yn ychwanegu at fy niwrnod gwaith ac ar ddiwedd y mis mae'n rhaid i mi adael gwaith yn gynharach i sicrhau bod y rhoddion yn cael eu talu i mewn yn brydlon gan fod rhaid i mi fynd ymhellach i fanc." **Ymatebwyr i'r arolwg**

"Rwy'n drysorydd Sefydliad y Merched felly rhaid imi fynd i mewn i fanc - dydw i ddim yn gyrru. Felly, dim ond er mwyn rhoi £10 i mewn i'r banc, mae'n daith 2 neu 3 awr. Erbyn ichi ddal y bws ac aros am yr un nesaf, gallai fod yn 2 i 3 awr - mae hynny'n broblem." **Cyfranogwr mewn grŵp ffocws, Llanfyllin**

"Roeddwn i yn y Trallwng ddoe, rwy'n helpu gyda Chymorth Cristnogol, ac roedd gen i swm da o arian yn y tŷ i'w gymryd i mewn ond mae NatWest wedi mynd o'r Trallwng felly rhaid imi fynd i Groesoswallt sy'n cymryd 25 munud i hanner awr." **Cyfranogwr mewn grŵp ffocws, Llanfyllin**

8. Yr effaith ar y gymuned

108. Dywedodd yr Eglwys yng Nghymru fod cau banciau yn ergyd arall i fywyd cymunedol mewn ardaloedd dan bwysau - boed hynny mewn trefi a phentrefi gwledig, ardaloedd o ddirywiad diwydiannol, neu rannau anghysbell o drefi mwy.¹¹² Awgrymodd os yw'r cymunedau hyn am gadw neu adennill eu bywiogrwydd a'u hapêl, mae angen iddynt gynnig amrywiaeth lawn o wasanaethau y mae eu hangen ar bobl leol i redeg eu bywydau a'u busnesau.¹¹³

109. Awgrymodd Unite nad yw banciau symudol, a gyflwynir yn aml i liniaru effeithiau cau canghennau, yn gwasanaethu cymunedau'n dda. Mae Unite hefyd yn honni ei bod yn hanfodol bod y sector yn cael ei orfodi i gydnabod ei gyfrifoldebau cymdeithasol corfforaethol i'w gwsmeriaid, ei staff a hefyd i'r cymunedau lleol lle maent yn ennill eu helw.¹¹⁴ Cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at achub y banciau yn dilyn yr argyfwng ariannol yn 2007-2008 drwy ddweud mai'r rhain yw'r sefydliadau a achubwyd gydag arian y trethdalwyr ac ymddengys eu bod yn troi eu cefnau ar gymunedau a chwsmeriaid sy'n agored i niwed ac yn disgwyl i bawb weithredu heb arian parod ac ar-lein p'un a ydynt am wneud hynny ai peidio.¹¹⁵

110. Dywed y Ffederasiwn Busnesau Bach fod cau banciau'n creu bwlch cyngori mewn rhai cymunedau sydd â mynediad cyfyngedig at gymorth amgen.¹¹⁶

111. Mae'r Gymdeithas Alzheimer's yn argymhell y dylai banciau gofio am y cwsmeriaid nad ydynt o reidrwydd yn gyfforddus yn defnyddio gwasanaethau ar-lein a allai gael eu dieithrio gan fanciau'n cau,¹¹⁷ gan nodi bod hyn yn debygol o niweidio'r boblogaeth hŷn yn anghymesur lle mae'r defnydd ar-lein yn gymharol isel, ac felly'n effeithio'n arbennig ar bobl â dementia. Mae staff cangen sydd â gwybodaeth am gwsmeriaid yn fwy tebygol o allu cefnogi pobl â dementia i gadw mynediad at eu harian eu hunain ac at eu hannibyniaeth yn ddiogel, gyda chymorth gweithiwr cymorth os oes angen.¹¹⁸

¹¹² Tystiolaeth ysgrifenedig

¹¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig

¹¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig

¹¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig

¹¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig

¹¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig

¹¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig

112. Mae Which? yn awgrymu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ystyried pa atebion y gellid eu rhoi ar waith ledled Cymru i sicrhau bod cymunedau lleol yn gallu cael gfael ar y gwasanaethau bancio a thaliadau sy'n hanfodol i'w bywydau bob dydd.¹¹⁹ Nododd Nationwide, sydd ymhlith y rhai sydd wedi ymrwmo i gynnal presenoldeb ar y stryd fawr, fywiogrwydd y stryd fawr yn gyffredinol fel y mater mawr i fynd i'r afael ag ef. Rhaid i rôl banciau brics a mortar a phwysigrwydd mynediad at wasanaethau bancio gael eu hymgorffori mewn cynlluniau adfywio ardal.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n fanwl sut y mae'n bwriadu ystyried effaith banciau'n cau a cholli peiriannau ATM rhad ac am ddim i'w defnyddio ar gymunedau, canol trefi a strydoedd mawr yn ei gweithgareddau adfywio ac adeiladu cyfoeth cymunedol.

8. 1. Mynediad at wasanaethau bancio Cymraeg

113. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gref o broblemau gyda diffyg mynediad at wasanaethau bancio yn Gymraeg, gan gynnwys ar gyfer pobl hŷn. Nododd Comisiynydd y Gymraeg y dirywiad mewn cyfleoedd i gwsmeriaid ymgysylltu â'u banc yn Gymraeg, a phwysigrwydd canghennau banc fel ffynhonnell gyflogaeth sy'n "[c]yfrannu at hyfywedd economi lleol a thrwy hynny hefyd hyfywedd y Gymraeg".¹²⁰

114. Canfu adolygiad statudol y Comisiynydd yn 2015 o wasanaethau Cymraeg a ddarperir gan fanciau'r stryd fawr, a gynhaliwyd mewn ymateb i fwy o gwynion, nad oedd y gwasanaethau Cymraeg a gynigiwyd yn hanesyddol gan fanciau mawr dros y cownter a thros y ffôn ar gael mor hawdd, ac nad oedd y Gymraeg wedi'i chynnwys yn gynhwysfawr wrth drosglwyddo gwasanaethau bancio ar-lein. Effeithiwyd yn anghymesur ar gymunedau gwledig yng ngorllewin a gogledd Cymru sydd â chanran uwch o siaradwyr Cymru a phobl hŷn. Er bod y Comisiynydd wedi gweld cynnydd gyda rhai agweddau, nid yw datblygiadau technolegol wedi ystyried y Gymraeg - nid yw technoleg sganio digidol i brosesu sieciau'n cydnabod sieciau a ysgrifennir yn Gymraeg, ac nid oes ap bancio ar gael yn Gymraeg.

115. Dywedodd Cyngor Llyfrau Cymru ei fod wedi gweld newid yn agwedd y banciau tuag at y Gymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda'r mwyafrif o wasanaethau bellach ar gael drwy gyfrwng y Saesneg yn unig: "Rydym yn parhau i dderbyn cyfriflen Gymraeg, ond mae'r holl ffurflenni yn gorfod cael eu paratoi yn

¹¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig

¹²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig

Saesneg". Dywedodd "n[a]d yw'r banciau'n ymddangos fel petaen nhw'n awyddus i gefnogi busnesau bach", ac mae diffyg dealltwriaeth ynglŷn â sut mae'r sector cymunedol yn gweithredu, ac mae'n adrodd y gwrthodir mynediad iddynt at system BACS (System Clirio Awtomataidd Banc) oherwydd ei fod yn cael ei farnu'n rhy fach i fod yn gymwys gyda throsiant o £7 miliwn: "Mae hyn wedi creu problemau gweinyddol dirfawr, ac yn golygu na allwn weithredu mor effeithiol â chwmnïau neu elusennau sydd â mynediad i system BACS".¹²¹

116. Dywed Cymdeithas Alzheimer's Cymru, pan fydd person dwyieithog yn cael diagnosis o ddementia, yn aml hyfedredd mewn ail iaith sy'n cael ei golli gyntaf. Mae data hefyd yn dangos, wrth i bobl heneiddio, eu bod yn fwy tebygol o ddatblygu rhyw fath o ddementia a bod cyfraddau Cymraeg llafar yn aros yn weddol gyson ymhlith y boblogaeth dros 65 oed. Dywed yr elusen ei bod yn hanfodol felly nad yw gwasanaethau cyfredol yn cael eu tynnu o gymunedau Cymraeg, a bod y rhai sy'n cael eu symud, eu hail-bwrpasu neu eu digideiddio yn caniatáu mynediad yn y Gymraeg er mwyn galluogi pobl sy'n byw gyda dementia i gael mynediad at wasanaethau yn yr iaith o'u dewis.¹²²

117. Cwynodd un ymatebydd i'r arolwg am gael ei orfodi i ymdrin â materion bancio yn Saesneg. Dywedodd un arall fod angen i Gomisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru gymryd camau i orfodi banciau i gynnig gwasanaeth Cymraeg ar-lein ac ar y ffôn (e.e. nid gwasanaeth cyfyngedig mewn canolfan alwadau fel sydd ar gael ar hyn o bryd).

118. Cydnabu'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol fod yn rhaid gwneud mwy gan nad oedd gwasanaethau ar-lein yn ddwyieithog a bod gwasanaethau wyneb yn wyneb yn gyfyngedig.

119. Er y mynegwyd pryderon eraill gyda'r Pwyllgor ynglŷn â'r cynnig am fanc cymunedol newydd yng Nghymru, roedd Comisiynydd y Gymraeg yn teimlo bod gan y syniad o sefydlu banc gyda nifer o ganghennau ledled y wlad y "potensial i gael gwasanaethau cwbl ddwyieithog"¹²³, a allai "fynd i'r afael â'r diffyg argaeledd o wasanaethau i grwpiau ac unigolion sydd ddim yn dewis neu ddim wedi arfer â bancio ar lein a chyfrannu at hyfywedd ein cymunedau o siaradwyr Cymraeg".

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw gynnig bancio cymunedol yng Nghymru yn ystyried yn llawn yr angen i ddarparu gwasanaethau bancio dwyieithog.

¹²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig

¹²² Tystiolaeth ysgrifenedig

¹²³ Tystiolaeth ysgrifenedig

9. Bancio cymunedol

120. Yn ei faniffesto i fod y Prif Weinidog, mae Mark Drakeford AC yn nodi cynnig i gefnogi datblygu Banc Cymunedol newydd i Gymru yn unig, gyda changhennau yn agored i gwsmeriaid mewn gwahanol rannau o'n gwlad, gan sicrhau bod arian ar gael yn lleol i fusnesau bach, ac ailgylchu arbedion lleol yn fenthyciadau lleol.¹²⁴

121. Bwriad y Prif Weinidog yw y byddai Banc Cymunedol Cymru yn eiddo i'w aelodau, ar sail un-aelod un-bleidlais, gan gynnig cyfrifon cyfredol i bob preswlydd lleol, bancio wyneb yn wyneb i gwsmeriaid lleol a busnesau bach, a darparu benthyciadau a benderfynir gan staff medrus a phrofiadol, nid fformiwla gyfrifiadurol. Yn ôl y maniffesto bydd y Banc yn dechrau gweithredu cyn diwedd tymor y Cynulliad hwn, gan ledaenu i Gymru gyfan ar ôl yr etholiad Cynulliad nesaf, ac roedd y Pwyllgor yn awyddus i ystyried y manylion fel rhan o'i ymchwiliad.

122. Mae'r model bancio cymunedol a hyrwyddir gan Gymdeithas Frenhinol y Celfyddydau a'r Gymdeithas Banc Cynilo Cymunedol hefyd yn cael ei ddilyn mewn rhannau eraill o'r DU, gan gynnwys de-orllewin a gogledd-orllewin Lloegr, a chlywodd y Pwyllgor gan y Cynghorydd Matt Brown, Arweinydd Cyngor Dinas Preston, ynglŷn â sut yr oedd hyn yn rhan o ddull "Model Preston"¹²⁵ o adeiladu cyfoeth cymunedol o fewn yr economi ranbarthol. Dywedodd y Cynghorydd Brown wrth y Pwyllgor:

"What we have done with the banking project is, similar to Wales, we're working with a number of councils in the north-west. Initially, it's Liverpool council and Wirral, and there are other councils in Lancashire and Cumbria that we're going to approach. So, we're trying to get to the £20 million that we need to capitalise a bank, and we're also trying to incubate the bank as well, so we're looking at trying to get the members and the directors, so we're hoping to have the bank up and running very soon.it's about the wealth extraction from the regional economy. Because the reality is that something around 86 per cent of people bank with the large banks, and again that wealth then leaves the community. We're very attracted by the idea it'll be a co-operative bank that will be able to lend to local businesses especially."¹²⁶

¹²⁴ <https://skwawkbox.org/wp-content/uploads/2018/11/manifesto-english-print.pdf>

¹²⁵ www.preston.gov.uk/thecouncil/the-preston-model/what-is-the-preston-model/

¹²⁶ Paragraff 175, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 19 Mehefin 2019

123. Yn y Cyfarfod Llawn ar 30 Ionawr 2019, dywedodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd fod Llywodraeth Cymru yn "cynnal rhai trafodaethau cychwynol gyda nifer o randdeiliaid sy'n awyddus i archwilio dichonoldeb sefydlu'r banc cymunedol hwnnw yng Nghymru". Aeth ymlaen i ddweud:

"Bydd y gwaith hwnnw'n cael ei arwain gan bartneriaid a fydd yn paratoi asesiad llawn o'r farchnad a chynllun busnes gyda'r bwriad o'i gyflwyno wedyn i Fanc Lloegr fel cais yn ddiweddarach eleni. Bydd gweithwyr bancio proffesiynol sy'n gweithio ym Manc Datblygu Cymru yn cefnogi'r gwaith, gan ddarparu cyngor a chyfarwyddyd lle bo'n briodol a sicrhau bod y broses o greu banc cymunedol yn integreiddio â sefydliadau ariannol sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys, er enghraifft, Banc Datblygu Cymru a'r undebau credyd."¹²⁷

124. Ar wahân dechreuodd Banc Cambria drydar am ei gynlluniau i greu banc cymunedol "un-aelod un-bleidlais" yng Nghymru yn unol â chynnig y Prif Weinidog, ac ym mis Chwefror 2019 roedd y "cerbyd prosiect" i symud Banc Cambria ymlaen wedi'i gofrestru'n gyhoeddus gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol gan Mark Hooper o Indycube. Mae Banc Cambria wedi cytuno ar delerau amlinellol gyda'r Gymdeithas Banciau Cynilion Cymunedol i ddefnyddio'r model bancio cymunedol (banc mewn boc) y maent wedi'i ddatblygu. Yn ôl Banc Cambria mae model y Gymdeithas Banciau Cynilion Cymunedol yn darparu nifer o atebion i ganghennau bach, canolig a mawr ac mae'n cynnwys darpariaeth gynhwysfawr ar-lein.¹²⁸

125. Dywedodd James Moore o'r Gymdeithas Banciau Cynilion Cymunedol wrth y Pwyllgor fod banciau dan berchnogaeth y ddwy ochr yn rhan arferol o'r system ariannol mewn rhannau eraill o Ewrop, a bod busnesau'n eu defnyddio'n helaeth, ond nad oedd yn dechnegol bosibl cael banc dan berchnogaeth ar y cyd yn y DU cyn 2014, pan newidiwyd y gyfraith, a sefydlodd Banc Lloegr uned er mwyn helpu pobl i agor banciau newydd.¹²⁹

126. Dywedodd Banc Cambria ei fod yn gobeithio agor nifer o fathau o ganghennau a sianeli i'w marchnata ledled Cymru rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2021. Byddent yn cwmpasu cymysgedd o ganghennau trefol, gwledig, daearyddol, a hefyd yn ceisio agor o leiaf un cangen lle dangosir bod y cwsmeriaid

¹²⁷ Paragraff 52, y Cyfarfod Llawn, 30 Ionawr 2019

¹²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig

¹²⁹ Paragraff 25, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Mehefin 2019

wedi'u heffeithio'n fawr gan allgáu ariannol.¹³⁰ Byddai'r banc yn disgwyl symud i broffidioldeb erbyn mis Rhagfyr 2026.

127. Daeth yn amlwg yn dilyn atebion i gwestiynau ysgrifenedig i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth fod Banc Cambria wedi cyflwyno cynnig i Lywodraeth Cymru yn gofyn am gefnogaeth i dalu cost y cyfnodau gwaith cynnar¹³¹ h.y. i ddarparu "cyllid cychwynnol" Fodd bynnag, dywedodd tystiolaeth ysgrifenedig Banc Cambria i'r Pwyllgor na fyddai angen cyllid cyhoeddus ar y banc ei hun:

"The Community bank would not need subsidy to compensate for it taking risks on small businesses, and having high overheads by operating in marginal areas where other banks have withdrawn. [...] The experience of co-operative and community banks in other countries, many of which are over 100 years old, is that they are profitable in their own right, and need no public subsidy, because they operate prudently. Also, the business model proposed of working with existing financial institutions, can open up the availability of a range of high street outlets at low cost. Possible high street partnerships could include existing Credit Unions and CDFIs¹³²."¹³³

128. Cadarnhaodd Banc Cambria y costau a ragwelir i sefydlu a chyfalafu'r banc gyda'r Pwyllgor:

"To get to a licence, we think it's going to cost about £600,000. And that gets you to a point where you get a licence with restrictions. The period from moving from a licence with restrictions to actually having a full licence—we'd need to probably raise about £8 million, I think, in total, some of which will be sitting just squarely with the Bank of England. And then the final tier 1 capital takes you up to about £20 million. So, in total, we're talking about just over £20 million to be able to get this thing."¹³⁴

129. Cadarnhaodd y Gweinidogion hefyd fod cefnogi'r syniad o sefydlu bancio cymunedol yng Nghymru bellach yn bolisi Llywodraeth Cymru, ond nodwyd fod yn rhaid iddo gael ei arwain gan gymunedau. Ar 3 Gorffennaf 2019, dywedodd

¹³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig

¹³¹ Cwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad i'w ateb gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ar 21 Mehefin 2019

¹³² Sefydliad cyllid datblygu cymunedol yw CDFI sy'n darparu gwasanaethau ariannol i gymuned sydd dan anfantais economaidd

¹³³ Tystiolaeth ysgrifenedig

¹³⁴ Paragraff 56, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 3 Gorffennaf 2019

Duncan Harmer, Prif Swyddog Gweithredol Busnes a Rhanbarthau yn Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor ei fod yn y camau olaf o asesu'r cynnig i ddarparu cyllid cychwynnol o hyd at £600,000 i Fanc Cambria,¹³⁵ ac ar 21 Awst 2019, cymeradwyodd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth y cynnig i ddarparu cyllid cychwynnol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu banc cymunedol i Gymru.¹³⁶ Cyn penderfyniad Banc Cambria, pan holwyd Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth sut y byddai Llywodraeth Cymru yn ymdrin â chynigion cychwynnol tebyg ar gyfer bancio cymunedol, dywedodd:

“Clearly, I think there is a positive, a benign political and policy environment, where we want this to succeed, but it’s got to stand or fall on its own merits. So, we’ve been encouraging of Banc Cambria, as we would with anybody else who came forward. As far as I’m aware, nobody else has come forward, though we have been in conversations with the RSA and others who are working in Preston and London and so on. So, this is a relatively small community, all trying to do the same thing and learning from each other. But we need to treat it on its merits and make balanced judgments.”¹³⁷

130. Pan holwyd Mark Hooper ynghylch ffynonellau buddsoddiad cyfalaf tymor hwy i'r banc, dywedodd wrth y Pwyllgor fod Banc Cambria yn “gynnig diddorol” ar gyfer darpar fuddsoddwyr preifat a chyhoeddus, ac o'i gymharu â chyfleoedd buddsoddi eraill fel parciau manwerthu roedd yn fwy cymhellol.¹³⁸ Dywedodd ei fod yn edrych ar nifer o ffynonellau ar gyfer cyllid cyfalaf yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, gan gynnwys y nifer fawr o sefydliadau yng Nghymru sydd â naill ai balansau arian parod neu fuddsoddiadau mewn pethau eraill. Dywedodd fod banciau cymunedol mewn rhannau eraill o'r DU wedi codi buddsoddiad gan awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill, yn ogystal â buddsoddwyr gwerth net uchel, felly roedd buddsoddwyr profedig mewn mannau eraill.¹³⁹

131. Pan holwyd Mark Hooper pam y cred y byddai model Banc Cambria yn denu buddsoddwyr preifat ac yn gweithio lle roedd y banciau mawr wedi methu, awgrymodd y gallai'r model banc ar y cyd fod yn llwyddiannus pe na bai lefel ddisgwyliedig yr elw yn cael ei gosod mor uchel. Dywedodd y byddai ei waith yn

¹³⁵ Paragraff 69, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 3 Gorffennaf 2019

¹³⁶ <https://gov.wales/decision-reports-2019>

¹³⁷ Paragraff 78, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 3 Gorffennaf 2019

¹³⁸ Paragraff 68, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Mehefin 2019

¹³⁹ Paragraff 94, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Mehefin 2019

awgrymu y gall canghennau banc fod yn broffidiol, ond nad ydynt ar yr un lefel enillion ag y gall y canghennau mawr eu cael.¹⁴⁰

132. Dywedodd Mark Hooper fod Banc Cambria yn ceisio llenwi bylchau mewn ardaloedd gwledig lle mae cau banciau wedi cael effaith sylweddol. Dywedodd fod cymunedau gwledig wrth wraidd yr hyn y mae'n ceisio ei wneud,¹⁴¹ a hefyd bod hyn yn ymwneud â chael banc sy'n siarad cymaint â'r cymunedau Cymraeg eu hiaith ag y mae mewn mannau eraill.¹⁴² Cadarnhaodd y byddai Banc Cambria yn edrych ar leoli mewn trefi a oedd wedi colli eu banc diwethaf. Fodd bynnag, o ran lleoliadau canghennau, rhybuddiodd nad oedd y cynlluniau wedi'u cadarnhau eto. Oherwydd cost eiddo byddai Banc Cambria yn chwilio am bartneriaid i weithio gyda hwy i sefydlu ei hun lle mae pobl, gan gynnwys lleoedd cyhoeddus fel ysbytai, marchnadoedd ffermwyr, canolfannau cymunedol a chanolfannau hamdden, yn ogystal â phrydlesu eiddo ar gyfer ei weithrediadau annibynnol ei hun. Gwelodd gyfle hefyd i siarad â banciau a oedd yn gadael y stryd fawr ynghylch yr eiddo gwag yr oeddent yn berchen arno.¹⁴³

133. Disgrifiodd Mark Hooper raddfa a allai gyrraedd 50 o ganghennau ledled Cymru yn hawdd o fewn 5-7 mlynedd, gyda phroffidioldeb o fewn pum mlynedd. O'r 50 o ganghennau hynny, byddai pob un ohonynt yn cynnig peiriannau ATM rhad ac am ddim i'w defnyddio, ac amcangyfrifodd fod tua 12 â staff llawn a'r 38 arall gyda llai o bobl ac yn fwy awtomataidd:

“some of the branches would feel a bit more like the branches that we're used to. So, there'll be—a number of people will be working in those branches. Some of them will have fewer people and some of them may be, effectively, the nuts and bolts of the machinery—effectively, a glorified ATM delivering the services, but with a person at the other end of the screen, so you'll be able to have real conversations.”¹⁴⁴

134. Dywedodd Mark Hooper, yn wahanol i beiriannau ATM presennol, y byddai peiriannau ATM Banc Cambria yn gallu “ailgylchu” arian a adneuir gan siopwyr lleol. Byddai Banc Cambria yn cynnig cyfrifon cyfredol ar gyfer cwsmeriaid personol a chwsmeriaid busnes, yn ogystal â phobl sy'n rhedeg busnesau o'u cyfrifon manwerthu, sef rhywbeth y mae'r mwyafrif o fanciau arferol yn ei chael

¹⁴⁰ Paragraff 61, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Mehefin 2019

¹⁴¹ Paragraff 11, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Mehefin 2019

¹⁴² Paragraff 34, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Mehefin 2019

¹⁴³ Paragraffau 39-40, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Mehefin 2019

¹⁴⁴ Paragraff 34, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Mehefin 2019

hi'n anodd bod eisiau ei gefnogi.¹⁴⁵ Byddai hefyd yn cynnig benthyciadau ac yn gobeithio cynnig morgeisi, er bod Mark Hooper yn glir na fyddai'n cynnig cardiau credyd na morgeisi ar gyfer ail gartrefi na gosodiadau gwyliau, oherwydd yr effaith negyddol ar ein cymdeithas.¹⁴⁶

Dichonoldeb

135. Mynegodd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad farn gymysg ar gynnis Llywodraeth Cymru i gefnogi'r syniad o greu banc cymunedol yng Nghymru. Dywed Cymdeithas Adeiladu'r Principality y gall sefydlu unrhyw fath o fanc yn y DU fod yn gostus a chymryd llawer o amser, ac am y rheswm hwn credwn ei bod yn debygol na fydd yn hyfyw heb gymorthdaliadau mawr.¹⁴⁷ Awgrymodd fod atebion llai costus eraill ar gael a fyddai'n helpu i fynd i'r afael â materion o ran cynhwysiant ariannol - er enghraifft, yr "hybiau ariannol" a gynigiwyd mewn papur a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Bwyllgor Dethol y Trysorlys ar fynediad defnyddwyr at wasanaethau ariannol.¹⁴⁸ Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi gwrthod cynnig Pwyllgor y Trysorlys wedi hynny i fynnu bod banciau sy'n cau'r gangen olaf yn y dref yn cefnogi "hybiau bancio" yn ariannol yn y swyddfa bost leol, cam a ddisgrifiodd Cadeirydd y Pwyllgor ar y pryd fel rhywbeth "siomedig".¹⁴⁹

136. Cefnogodd Eric Leenders o UK Finance y pryderon a fynegwyd gyda'r Aelodau ynghylch y costau a'r rhwystrau rheoleiddio sy'n gysylltiedig â sefydlu gweithrediad bancio newydd:

"...one does need to think about the capital requirements for maintaining a banking operation, the liquidity requirements for maintaining a banking operation, the support that provides in the context of, for example, the financial services compensation scheme. That, of course, protects customers should the community bank find itself in its own financial difficulties. That is a substantial undertaking and that contributes to the fixed-cost base. I don't know the extent to which the Royal Society of Arts' paper has explored some of those dimensions, but, certainly, I would suggest that the committee

¹⁴⁵ Paragraff 37, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Mehefin 2019

¹⁴⁶ Paragraff 37, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Mehefin 2019

¹⁴⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig

¹⁴⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig

¹⁴⁹ www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/commons-select/treasury-committee/news-parliament-2017/consumers-access-to-financial-services-government-response-17-191/

considers them quite carefully and is quite thoughtful about them as it reviews any approach to a community bank.”¹⁵⁰

137. Dywed Undeb Credyd Cambrian nad oedd amheuaeth bod gan fanc cymunedol, sy'n cael ei redeg fel cwmni cydweithredol er budd ei aelodau, y potensial i herio dull y banciau stryd fawr, sy'n seiliedig yn gyfan gwbl ar y farchnad.¹⁵¹ Gan hynny, mae ganddo'r potensial i weithredu fel catalydd ar gyfer rhagor o degwch a llai o ecsbloetio wrth ddarparu gwasanaethau ariannol. Fodd bynnag, bydd hyd yn oed banc cymunedol cydfuddiannol yn wynebu realiti cost cynnal rhwydwaith canghennau helaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig gyda nifer cymharol fychan o ymwelwyr. Nid yw banciau'n cau canghennau o ran malais; maent yn gwneud penderfyniadau busnes rhesymol.¹⁵² Dywedodd Mark Hooper ei fod yn gweld Banc Cambria yn diwallu angen am fusnesau meicro bach a chwsmeriaid manwerthu nad oes gan gyn-fanciau'r stryd fawr unrhyw ddiddordeb ynddynt.¹⁵³

138. O ran nifer y cwsmeriaid sydd eu hangen i ddod yn broffidiol o fewn pum mlynedd, dywedodd y Cynghorydd Matt Brown o Gyngor Dinas Preston wrth y Pwyllgor ei fod yn rhagweld y byddai angen i 60,000 o gwsmeriaid newid i'w gynnig banc cymunedol newydd yng ngogledd-orllewin Lloegr (2 y cant o gyfanswm y boblogaeth ledled Swydd Gaerhirfryn, Cumbria a Glannau Mersi o 3 miliwn, tua'r un maint poblogaeth â Chymru). Dywedodd Mark Hooper y byddai'r ffigurau ar gyfer Cymru ychydig yn llai, er y byddai'n gyfran sylweddol o boblogaeth Cymru o hyd. Cred, yng Nghymru, mae'n debyg ei fod ychydig yn llai na hynny. Felly, rhywle rhwng 40,000 a 50,000 o gwsmeriaid dros bum mlynedd. Ac mae hynny wedyn yn dechrau troi'n elw.¹⁵⁴ Mae hyn yn cyfateb i oddeutu 1.5 y cant o gyfanswm poblogaeth Cymru, ac ni fydd gan bob un ohonynt gyfrif cyfredol.

139. Roedd y Pwyllgor hefyd yn cwestiynu o ble y byddai'r sgiliau'n dod i gefnogi sefydlu banc cymunedol newydd, gan nodi nad oedd y sylfaenydd o gefndir ariannol ond hefyd y gallai undebau credyd eu hunain ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r set sgiliau gywir. Cyfaddefodd James Moore o'r Gymdeithas Banciau Cynilion Cymunedol mai rhywbeth a fyddai'n fwy anodd na dod o hyd i'r arian

¹⁵⁰ Paragraff 104, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 19 Mehefin 2019

¹⁵¹ Tystiolaeth ysgrifenedig

¹⁵² Tystiolaeth ysgrifenedig

¹⁵³ Paragraff 50, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Mehefin 2019

¹⁵⁴ Paragraff 63, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Mehefin 2019

fyddai dod o hyd i bobl sydd â'r cydbwysedd cywir o sgiliau a chymhelliant moesegol dros fod eisiau creu rhywbeth yng Nghymru gyda'r nodweddion hyn.¹⁵⁵

Dulliau amgen

140. Cyfeiriodd sawl tyst at ddewisiadau amgen i sefydlu banc cymunedol cwbl newydd. Dywedodd Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri mai'r dewis mwyaf effeithiol fyddai manteisio ar y potensial enfawr y mae Swyddfa'r Post yn ei gynnig.¹⁵⁶ Tynnodd sylw hefyd at y ffaith y byddai banc cymunedol yn ei gwneud yn ofynnol i bobl newid eu cyfrif cyfredol, rhywbeth y mae pobl yn amharod i'w wneud, gan dynnu sylw at ymchwiliad gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn 2015 a ganfu mai dim ond 3 y cant o bobl oedd wedi gwneud hynny yn y flwyddyn flaenorol.¹⁵⁷ Yn eu cyflwyniad ysgrifenedig i'r Pwyllgor nododd Gweinidogion Cymru hefyd fod hon yn her bellach i fanc newydd o ystyried amharodrwydd pobl i newid.¹⁵⁸

141. Awgrymodd yr Eglwys yng Nghymru y gallai fod yn well ystyried pa fentrau presennol y gellid eu cefnogi ymhellach, yn hytrach na dechrau datblygiad cwbl newydd, ond mai nod banc cymunedol ddylai fod i atal y dirywiad mewn gwasanaethau bancio lleol, cadw seilwaith cymunedol, ac annog datblygu economaidd lleol.¹⁵⁹ Dywedodd Valentine Mulholland o'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau hefyd ei bod yn bwysig sicrhau bod beth bynnag sy'n cael ei ddatblygu yn cael ei integreiddio â rhai o'r cyfleoedd presennol¹⁶⁰, gan dynnu sylw yn benodol at gryfder y sector undebau credyd.

142. Dywedodd Eric Leenders o UK Finance:

“The costs of establishing a banking franchise are non-trivial—they are quite significant. And the fixed costs of maintaining a bank branch or a branch network are significant as well, principally across the premises, the IT and the human resource requirement.

“We've looked at models such as Bendigo Bank in Australia, which has become a very successful community bank. I think there are, probably,

¹⁵⁵ Paragraff 113, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Mehefin 2019

¹⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig

¹⁵⁷

https://assets.publishing.service.gov.uk/media/55d459a540f0b609ff000003/Quantitative_analysis_of_searching_and_switching_in_personal_current_accounts.pdf

¹⁵⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig - EIS(5)-19-19(t2)

¹⁵⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig

¹⁶⁰ Paragraff 323, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Mehefin 2019

some quite compelling geographical drivers as much as commercial drivers in that particular model. I would have thought that, in considering community banking, it would be very sensible not to discount partnering with existing models—perhaps building societies, perhaps credit unions, perhaps other forms of mutual—to save the significant investment and some cost in establishing an entirely new competing brand. And I think that competing brand would also, potentially, dilute a market that is already, I would suggest, fairly fully served by existing providers.”¹⁶¹

143. Dywedodd Undeb Credyd Dragonsavers:

“It is not clear what is meant by community bank and what products and services will be offered and what internal software capabilities will be required to provide these. It may be that there is potential for an existing network (like credit unions) to be supported to provide these products and services or provide shared branching or host a community bank within its network. There is no merit to communities or to Welsh Government in duplicating existing products and services and Dragonsavers would seek to work in partnership and work in a complementary way.”¹⁶²

Yr effaith ar undebau credyd

144. Roedd James Moore o'r Gymdeithas Banciau Cynilion Cymunedol yn ystyried undebau credyd yn bartner cyflenwol a naturiol ac nid cystadleuydd, a dywedodd fod yr undebau credyd ym Manceinion yn gweithio gyda'r model bancio cymunedol. Dywedodd eu bod yn un o'r prif symudwyr y tu ôl i hyn, oherwydd gallant weld ei fod yn cynnig pethau yn ychwanegol at yr hyn y maent yn ei wneud.¹⁶³ Roedd hefyd yn gweld undebau credyd fel darpar gwsmeriaid ar gyfer banc cymunedol. Dywed fod angen banc ar bob undeb credyd, ac mae thua hanner yr arian y mae pobl yn ei dalu i undebau credyd yn cael ei dalu i mewn i fanc gan yr undebau credyd, a chred y byddai banc fel hwn yn opsiwn gwell ar gyfer hynny¹⁶⁴, a hefyd y gallent o bosibl elwa o weithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaethau fel cynnig morgeisi.

¹⁶¹ Paragraffau 98-99, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 19 Mehefin 2019

¹⁶² Tystiolaeth ysgrifenedig

¹⁶³ Paragraff 104, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Mehefin 2019

¹⁶⁴ Paragraff 104, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Mehefin 2019

145. Roedd Mark Hooper o Banc Cambria hefyd yn gadarnhaol iawn ynglŷn ag ymgysylltu a gweithio gyda'r rhwydwaith undebau credyd yng Nghymru:

“But I think there are real opportunities, and we will start to engage with them more about sharing opportunities for premises, perhaps putting some of these automated ATM machines in premises that they’re paying rent for, so there could be a rental income that goes directly to credit unions and others. We see this as working together. Ultimately, the space that we’re trying to fill is the space that’s been vacated by the big, formerly high street, banks. It’s not the credit union network.”¹⁶⁵

146. Roedd gan Undeb Credyd Cambrian rai pryderon ynghylch effaith bosibl y banc cymunedol arfaethedig ar undebau credyd, gan nodi:

“Our ability to serve the most financially vulnerable is underpinned by us serving a wide range of members. Handling members’ benefits means that we can lend with more confidence to many who would otherwise have no sources of credit (apart from the most unscrupulous lenders). If a community bank ‘creams off’ some of our members it may have the unintended consequence of making it harder for credit unions to serve the needs of the most financially excluded in a responsible manner.”¹⁶⁶

147. Rhennir y pryderon hyn gan nifer sylweddol o undebau credyd. Ar ôl i Banc Cambria roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, ysgrifennodd Leanne Herberg, Prif Weithredwr Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro, ar ran grŵp o 11 o undebau credyd yng Nghymru i dynnu sylw at eu pryderon. Mae'r rhain yn cynnwys y ffaith y byddai bwriad Banc Cambria i ddarparu benthyciadau personol ar sail model cydweithredol mewn cystadleuaeth uniongyrchol ag undebau credyd, ac y byddai'n bygwth cynaliadwyedd y rhwydwaith undebau credyd yng Nghymru yn y dyfodol.¹⁶⁷

148. Mae'r llythyr yn tynnu sylw at faterion i'w hystyried gan y Pwyllgor mewn perthynas â chynnig Banc Cambria, gan gynnwys:

- Mae cyfraddau llog benthyciadau undebau credyd yn cael eu capio gan ddeddfwriaeth, ac mae rheoliadau pellach sy'n rheoli'r mathau o fuddsoddiadau y gall undebau credyd eu gwneud. Felly mae'n anochel

¹⁶⁵ Paragraff 107, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Mehefin 2019

¹⁶⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig

¹⁶⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig

bod model cyflenwi undebau credyd yn cael ei redeg i ffiniau tyn, ac mae'n agored i rymoedd ehangach y farchnad;

- Cyhoeddir mwyafrif y benthyciadau gan undebau credyd mewn gwerthoedd o dan £2,000, lle mae bwlch a methiant fel arall yn y farchnad, fodd bynnag mae undebau credyd angen benthyciadau gwerth mwy ac yn dibynnu arnynt er mwyn gwneud eu model busnes yn gynaliadwy; ac
- Mae cyflwyno model cydweithredol sy'n cynnig cyfrifon banc a benthyciadau personol yn debygol o ddenu'r un proffil o fenthycwyr y mae undebau credyd yn dibynnu arnynt i ddarparu'r benthyciadau personol gwerth canolig i uwch sy'n sybsideiddio'r cynnig o fenthyciadau gwerth is, sydd mor hanfodol wrth sicrhau bod pobl yng Nghymru yn gallu cael gafael ar gredyd fforddiadwy.

149. Daw'r llythyr i'r casgliad a ganlyn:

"We are committed to keeping an open channel of communication with Banc Cambria, but we wish to make it clear to the founders and the Welsh Assembly committee that at present, we see the plans as potentially detrimental to the long term sustainability of credit unions, by moving into the space of the co-operative provision of personal loans and payroll savings. We plan to make further representations to Government and stakeholders on this."¹⁶⁸

150. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, nododd Gweinidogion Cymru fod y cynnig yn cael ei arwain gan randdeiliaid, ac y "bydd gweithwyr proffesiynol ym maes bancio sy'n gweithio ym Manc Datblygu Cymru yn cefnogi'r gwaith hwn drwy roi cyngor ac arweiniad pan fo hynny'n briodol a sicrhau bod creu Banc Cymunedol yn integreiddio â sefydliadau ariannol sy'n bodoli ar hyn o bryd, gan gynnwys y Banc Datblygu ac Undebau Credyd".¹⁶⁹

151. Pan holwyd Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor am bryderon undebau credyd ynghylch colli aelodau i fanc cymunedol newydd, dywedodd fod y berthynas rhwng banc cymunedol newydd ac undebau credyd yn fater iddynt hwy, ond cyfaddefodd ei fod rhai dibyniaethau yma a rhai

¹⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig

¹⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig EIS(5)-19-19(t2)

canlyniadau anfwriadol clir posibl os symudir ymlaen mewn ffordd nad yw'n ystyriol.¹⁷⁰

152. Tynnodd Duncan Hamer sylw at bwysigrwydd cydweithredu, gan nodi esiamp Silicon Slopes, sefydliad dielw sy'n cefnogi cymuned cychwyn a thechnoleg yn Utah. Dywedodd mai ei fantra arweiniol yw nad oes cystadleuaeth mewn adeiladu cymunedol. Dywedodd na all banc cymunedol gymryd lle'r hyn y mae banciau'r stryd fawr wedi'i gymryd i ffwrdd a bod yn rhaid iddo feddwl yn wahanol drwy rannu gofod cyhoeddus, gweithio gydag undebau credyd, gweithio gyda Swyddfa'r Post. Cred fod gwir angen iddo fod y math hwnnw o effaith a ffocws ar y cyd i gael unrhyw obaith o fod yn ymarferol.¹⁷¹ Disgrifiodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol "ecosystem" gyda chyfleusterau bancio cymunedol yn edrych yn wahanol mewn gwahanol rannau o Gymru, gyda'r gymuned yn chwarae rôl sylweddol yn sut y mae hynny'n edrych.¹⁷²

153. Mae'r dadleuon a gyflwynwyd o blaid banc cymunedol i Gymru yn gymhellol ac mae'n amlwg mai polisi Llywodraeth Cymru yw cefnogi'r syniad mewn egwyddor, oherwydd buddion canfyddedig model bancio newydd i lenwi'r bwlch a adawyd gan gyn-fanciau'r stryd fawr. Fodd bynnag, cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gref o'r heriau o sefydlu banc cymunedol. Roedd y rhain yn cynnwys y gofynion cyfalaf a hylifedd, y rheoliad, y gofyniad sgiliau, yr amserlenni sydd eu hangen, sut i sefydlu ymddiriedaeth mewn cynnig bancio newydd a sicrhau'r nifer sy'n manteisio arno, ac awydd am risg darpar fuddsoddwyr. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod bancio cymunedol yn y DU yn dal i fod yn sefyllfa ddieithr gan nad oes trwydded fancio wedi'i rhoi eto. Mae hefyd yn hanfodol bwysig peidio ag ailddyfeisio'r olwyn, gan fod tystiolaeth gan gymdeithasau adeiladu cydfuddiannol, undebau credyd, swyddfeydd post a'r gymuned bresennol yn tynnu sylw at gyfleoedd pwysig ar gyfer cydweithredu a phartneriaeth i gau'r bylchau mewn gwasanaethau bancio.

154. Mae undebau credyd Cymru hefyd yn tynnu sylw at y ffaith eu bod yn ymdrin â chleientiaid heriol a chleientiaid sy'n agored i niwed na fydd banciau eraill eisiau nac am weithio gyda hwy. Erys cwestiwn ynghylch a allai banc cymunedol wasanaethu'r cwsmeriaid hyn yn ddigonol heb beryglu'r ddarpariaeth gyfredol drwy'r undebau credyd eu hunain. Mae cwestiwn hefyd ynghylch i ba raddau y gall model "banc mewn blwch" y Gymdeithas Banciau Cynilion Cymunedol o Banc Cambria lenwi'r bylchau presennol. Ymddengys y bydd yn cynnig nifer gyfyngedig o ganghennau "wyneb yn wyneb" ac nid yw'n glir sut y bydd yr elfen

¹⁷⁰ Paragraff 56, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 3 Gorffennaf 2019

¹⁷¹ Paragraff 57, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 3 Gorffennaf 2019

¹⁷² Paragraff 58, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 3 Gorffennaf 2019

awtomeiddio yn helpu i ddiwallu anghenion cwsmeriaid hŷn, anabl a'r rhai sy'n agored i niwed.

155. Roedd y Pwyllgor hefyd yn awyddus i ddeall awydd Llywodraeth Cymru am risg mewn perthynas â chynnig Banc Cambria, sydd â gofyniad cyfalaf hirdymor sylweddol. Wrth ymgymryd â'r broses diwydrwydd dyladwy, hyd yn oed mewn perthynas â darparu cyllid cychwynnol, mae'n bwysig bod y risgiau ariannol ac enw da o gefnogi'r prosiect wedi'u deall yn llawn.

156. Hyd yn oed os goresgynnir yr holl rwystrau, mae tystiolaeth a ddarperir gan y rhai yn y sector ariannol yn awgrymu bod yr amserlenni ar gyfer sefydlu banc cymunedol yng Nghymru hefyd yn uchelgeisiol os nad yn afrealistig.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru:

- Roi sicrwydd bod y broses diwydrwydd dyladwy ar gyfer cefnogi banc cymunedol Banc Cambria yn cynnwys asesiad trylwyr o'r effaith y gallai hyn ei chael ar y sector undebau credyd, a nodi sut y bydd yn lliniaru effeithiau a allai fod yn negyddol mewn ymgynghoriad â'r sector hwnnw;
- Darparu manylion am ei strategaeth ar gyfer rheoli'r risgiau parhaus sy'n gysylltiedig â rhoi arian cyhoeddus ym model bancio heb ei brofi y Gymdeithas Banc Cynilion Cymunedol, ac egluro lefel y gefnogaeth y mae'n rhagweld y bydd yn ei chynnig i'r banc cymunedol yn y dyfodol;
- Cadarnhau'r amserlenni ar gyfer darparu banc cymunedol i Gymru; a
- Chadarnhau a yw'n hyderus y bydd cynnig Banc Cambria yn cwrdd â'r awydd amlwg am wasanaethau bancio wyneb yn wyneb ffisegol ar gyfer cwsmeriaid hŷn, anabl a'r rhai sy'n agored i niwed.

10. Hybiau ariannol a chydweithredu

157. Cynigiodd sawl un a ymatebodd i'r ymgynghoriad y syniad o "hybiau" ariannol i wella mynediad drwy ganolbwyntio gwasanaethau mewn un lle, a hyrwyddo'r syniad o gydweithio i ddarparu gwasanaethau bancio, gan gynnwys datblygu'r sector undebau credyd ymhellach i lenwi rhai o'r bylchau. Disgrifiodd UK Finance hefyd gynllun pilot parhaus o "hyb" gwasanaethau bancio a rennir i fusnesau bach a chanolig adneuo enillion y tu allan i oriau swyddfa.¹⁷³

158. Yn ogystal â nodi galwadau am weithio mewn partneriaeth i wella mynediad at fancio, cafodd y Pwyllgor ei synnu gan ddull partneriaeth cymdeithasau adeiladu tuag at gynnal eu presenoldeb ar gyfer aelodau, er enghraifft yn ychwanegol at ei ganghennau ei hun, mae Cymdeithas Adeiladu'r Principality hefyd yn partneru â busnesau eraill i ddarparu gwasanaethau "asiantaeth" yn yr adeiladau busnes hynny. Roedd pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu darpariaeth bresennol a hwyluso'r argyfwng o ran mynediad at fancio yn neges bwysig a ddaeth i'r amlwg o'r ymchwiliad.

159. Nododd Undeb Credyd Cambrian, yr undeb credyd mwyaf yng Nghymru gyda 12,000 o aelodau ledled gogledd Cymru a Phowys, dadl gymhellol dros ddull mwy cydweithredol o ddarparu gwasanaethau bancio i'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ariannol. Mae ei thystiolaeth ysgrifenedig yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried a dysgu o ymdrechion yr Adran Gwaith a Phensiynau i ddatblygu capasiti undebau credyd drwy'r Prosiect Ehangu Undebau Credyd, strategaeth y dywed ei bod wedi'i dylanwadu'n drwm gan y bancwyr proffesiynol sy'n cyngori'r prosiect ac sydd o'r farn yn ddiodyn y dylai undebau credyd fod yn debycach i fanciau. Dywedodd mai'r camsyniad sy'n sail i'r meddylfryd hwn yw nad yw'r banciau'n mynd i wasanaethu unrhyw un a phawb:

"They pick and choose the customers they serve and how much they charge them in order to maximise their profits. Such a selective approach is fundamentally at odds with the principles of a community credit union. A consequence of the banks' approach is that for many years current accounts were not available to the most needy in society (for example those most dependent on benefits) and banks had to be forced by the government to offer basic bank accounts to all. Even now there remain barriers in place which exclude those on the edge of society from even this basic service. These barriers include lack of a

¹⁷³ Paragraff 68, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 19 Mehefin 2019

settled address, not being on the electoral role or inability to provide photo ID.”¹⁷⁴

160. Dywedodd Undeb Credyd Cambrian fod pobl yn cael eu heithrio o’r gwasanaethau bancio sydd eu hangen arnynt (e.e. drwy gau canghennau gwledig) oherwydd bod bancio traddodiadol yn eu methu ac nad yw’r ateb i’r broblem yn fwy o’r un datrysiad a fethodd (ni waeth beth yw strwythur ac ysgogiad moesegol y banc). Mae datrys y broblem yn gofyn am feddylfryd a dull gweithredu gwahanol. Mae’n tynnu sylw at awgrym yr adroddiad ar yr adolygiad Access to Cash y dylai’r llywodraeth, drwy ei rheoleiddwyr, sicrhau y gall banciau a darparwyr eraill gydweithredu a chydweithio i leihau costau:

“One approach that the Welsh Government might consider is support for initiatives that enables a wide range of banking services to be delivered through a variety of physical channels. The Post Office already handles transactions for several banks. The possibility of other outlets (e.g. convenience stores, local authority one stop shops, community based social enterprises) being able to deliver similar services for a wider range of providers (and products) could be explored.”¹⁷⁵

161. Dywedodd Cymdeithas Alzheimer’s Cymru yr hoffai weld Cymru lle dylai gwasanaethau ariannol, er mwyn cynnal ymddiriedaeth a chydabyddiaeth i’w cwsmeriaid, weithio gyda siopau a busnesau cymunedol eraill lle bo modd er mwyn cynnal eu presenoldeb ar y stryd fawr a pharhau i fod yn hygyrch i bawb yn y gymuned, a lle bo hynny’n bosibl, yn cydleoli gwasanaethau.¹⁷⁶

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru fynd ar drywydd syniadau cydweithredol eraill ar gyfer darparu gwasanaethau bancio, gan gynnwys drwy drefniadau partneriaeth, ochr yn ochr â’i chefnogaeth i fodel bancio cymunedol Banc Cambria. Dylai ei meini prawf ar gyfer cefnogi cynigion i wella mynediad at wasanaethau bancio fod â phwyslais cryf ar warantu mwy o gynhwysiant ariannol.

¹⁷⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig

¹⁷⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig

¹⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig

Atodiad A: Tystion

Dyddiad	Enw a Sefydliad
5 Mehefin 2019	Steve Hughes, Principality Cymdeithas Adeiladu Julie-Ann Haines, Principality Cymdeithas Adeiladu Tom Denman, Principality Cymdeithas Adeiladu David Critcher, Principality Cymdeithas Adeiladu Jamie Pike, Principality Cymdeithas Adeiladu Gareth Franks, Nationwide Building Society Tim Hutchings, Nationwide Building Society Scott Couldridge, Nationwide Building Society Claire Hanney, Nationwide Building Society
13 Mehefin 2019	Thomas Docherty, Which? Sue Jude, National Federation of Sub Postmasters Greg Lewis, Post Office Ltd Michael Norman, Post Office Ltd
19 Mehefin 2019	Eric Leenders, UK Finance Chris Larmer, Y Banc Cydweithredol Cllr Matt Brown, Cyngor Dinas Preston Llyr ap Gareth, Federation Small Businesses Adrian Greason-Walker, Cynghair Twristiaeth Cymru
27 Mehefin 2019	Mark Hooper, Banc Cambria James Moore, Cymdeithas y Banciau Chris Hemsley, Rheoleiddiwr y System Taliadau David Pickering, Bwrdd Sefydlog Benthycu Valerie Billingham, Age Cymru Derek Walker, Canolfan Cydweithredol Cymru Lee Phillips, y Gwasanaeth Cyngori Arianno Valentine Mulholland, y Gwasanaeth Cyngori Arianno
3 Mehefin 2019	Julie James AM, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol Lee Waters AM, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth Maureen Howell, Llywodraeth Cymru Duncan Hamer, Llywodraeth Cymru Steve Mallinson, Undeb Credyd Celtic Julie Mallinson, Undeb Credyd Celtic Daniel Arrowsmith, Cymdeithas Undebau Credyd Prydain